# Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2

## Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol

## Adroddiad Cwmpasu

## Fersiwn Ymgynghori Mai 2019

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Awdur a Gwasanaeth: Polisi Cynllunio

## Cynnwys

**Rhestr Byrfoddau** **iii**

**1. Cyflwyniad** **1**

1.1 Ailystyried Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 1

1.2 Ymgynghori 6

1.3 Sir Ceredigion 6

1.4 Proses y Cynllun Datblygu Lleol 7

**2. Asesiadau Perthnasol** **10**

2.1 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac asesiadau eraill 10

2.2 Yr Iaith Gymraeg 10

2.3 Asesu'r Effaith ar Iechyd 11

2.4 Asesiadau ychwanegol 11

**3. A1 – Nodi unrhyw gynlluniau, rhaglenni ac amcanion diogelu'r amgylchedd eraill** **12**

**4. A2. Casglu gwybodaeth sylfaenol** **27**

**5. A3. Nodi Problemau Amgylcheddol a; A4 Datblygu amcanion yr Asesiad Amgylcheddol Strategol** **31**

**6. Cydweddoldeb Amcanion** **62**

6.1 Cydweddoldeb â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 65

**7. Y Fframwaith Asesu Arfaethedig: Tasgau B1 i B6** **93**

**8. Ymgynghori** **98**

**Y Camau Nesaf** **100**

## Rhestr Byrfoddau

| | |
|---|---|
| **AP** | Asesiad Priodol |
| **ADSL** | Llinell Danysgrifio Ddigidol Anghymesur (Asymmetric Digital Subscriber Line) |
| **AONB** | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (Area of Outstanding Natural Beauty) |
| **AQMA** | Asesiad Rheoli Ansawdd yr Aer (Air Quality Management Assessment) |
| **BAP** | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (Biodiversity Action Plan) |
| **BGS** | Arolwg Daearegol Prydain (British Geological Survey) |
| **BME** | Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (Black Minority Ethnic) |
| **BPEO** | Yr Opsiwn Gorau Posib i'r Amgylchedd (Best Possible Environmental Option) |
| **BRMA** | Ardal Marchnad Rhentu Fras (Broad Rental Market Area) |
| **C02** | Carbon Deuocsid |
| **C2020** | Ceredigion 2020 |
| **CAMS** | Strategaeth Rheoli Dalgylch (Catchment Area Management Strategy) |
| **CSC** | Cyngor Sir Ceredigion |
| **CCW** | Cyngor Cefn Gwlad Cymru (Countryside Council Wales) |
| **CHD** | Afiechyd y Galon (Coronary Heart Disease) |
| **CROW** | Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (Countryside and Rights of Way Act) |
| **DDA** | Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Disability Discrimination Act) |
| **DEFRA** | Adran yr Amgylchedd Bwyd a Materion Gwledig (Department of Environment Food and Rural Affairs) |
| **DESH** | Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai (Department of Environmental Services and Housing) |
| **DLHE** | Cyrchfan Rhai sy'n Gadael Addysg Uwch (Destination of Leavers from Higher Education) |
| **DMIPPS** | Datganiad Polisi Cynllunio Interim Drafft y Gweinidog (Draft Ministerial Interim Planning Policy Statement) |
| **DTI** | Adran Masnach a Diwydiant (Department of Trade and Industry) |
| **EA** | Asiantaeth yr Amgylchedd (Environment Agency) |
| **EAFRD** | Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (European Agricultural Fund for Rural Development) |
| **EASR** | Cyfraddau Ewropeaidd wedi eu Safoni yn ôl Oed (European Age |

| | |
|---|---|
| | Standardised Rates) |
| **EC** | Comisiwn Ewropeaidd (European Commission) |
| **EES** | Strategaeth Gyflogaeth Ewrop (European Employment Strategy) |
| **EIA** | Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Environmental Impact Assessment) |
| **EQS** | Safon Ansawdd Ewropeaidd (European Quality Standard) |
| **EU** | Undeb Ewropeaidd (European Union) |
| **FCA** | Asesu Canlyniadau Llifogydd (Flood Consequences Assessment) |
| **FTE** | Cyfwerth Llawn Amser (Full Time Equivalent) |
| **GCR** | Adolygiad Cadwraeth Ddaearegol (Geological Conservation review) |
| **GDP** | Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (Gross Domestic Product) |
| **GQA** | Asesiad Ansawdd Cyffredinol (General Quality Assessment) |
| **GVA** | Gwerth Ychwanegol Crynswth (Gross Value Added) |
| **HAP** | Cynllun Gweithredu Cynefinoedd (Habitat Action Plan) |
| **HCW** | Comisiwn Iechyd Cymru (Health Commission Wales) |
| **HE** | Addysg Uwch (Higher Education) |
| **HEES** | Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Home Energy Efficiency Scheme) |
| **HHSRS** | Graddfa Iechyd a Diogelwch Tai (Housing Health and Safety Rating) |
| **HIA** | Asesiad Effeithiau Iechyd (Health Impact Assessment) |
| **HRA** | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Habitats Regulations Assessment) |
| **ICC** | Canolfannau Integredig y Plant (Integrated Children Centres) |
| **ICOMOS** | Cyngor Rhyngwladol Henebion a Safleoedd (International Council on Monuments and Sites) |
| **ICT** | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Information Communication Technology) |
| **IDO** | Ardaloedd Datblygu Interim (Interim Development Areas) |
| **IGER** | Sefydliad Glaswelltir ac Ymchwil Amgylcheddol (Institute of Grassland and Environmental Research) |
| **IHD** | Afiechydon Ischaemic y Galon (Ischaemic Heart Disease) |
| **IPCC** | Panel Rhyngadrannol ar Newid Hinsawdd (Interdepartmental Panel on Climate Change) |
| **JHLA** | Cyd Ddyraniad Tir ar gyfer Tai |
| **JREC** | Cynghrair Ynni Adnewyddadwy Johannesburg |

| | |
|---|---|
| **KSI** | Wedi eu Lladd neu'u Hanafu'n Ddifrifol (Killed or Seriously Injured) |
| **LA** | Awdurdod Lleol (Local Authority) |
| **CDLl/ LDP** | Cynllun Datblygu Lleol (Local Development Plan) |
| **LGAP** | Cynllun Gweithredu Geoamrywiaeth Lleol (Local Geodiversity Action Plan) |
| **LLTI** | Salwch Cyfyngus Tymor Hir (Limiting Long Term Illness) |
| **LPA** | Awdurdod Cynllunio Lleol (Local Planning Authority) |
| **MIPPS** | Datganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog (Ministerial Interim Planning Policy Statement) |
| **MMO** | Sefydliad Rheoli'r Môr (Marine Management Organisation) |
| **MTAN** | Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Minerals Technical Advice Note) |
| **MW** | Mega Watt |
| **NCN** | Rhwydwaith Seiclo Cenedlaethol (National Cycle Network) |
| **NH3** | Amonia |
| **NHAS** | Strategaeth Genedlaethol Ansawdd yr Aer (National Air Quality Strategaeth) |
| **NHS** | Gwasanaeth Iechyd Gwladol (National Health Service) |
| **N02** | Nitrogen Deuocsid (Nitrogen Dioxide) |
| **N0x** | Nitrogen Oxide (Nitrogen Ocsid) |
| **NPA** | Awdurdod Parc Cenedlaethol (National Park Authority) |
| **ODPM** | Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (Office of Deputy Prime Minister) |
| **ONS** | Swyddfa Ystadegau Gwladol (Office of National Statistics) |
| **ORS** | Opinion Research Services |
| **PLASC** | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (Pupil Level Annual School Census) |
| **PM10** | Gronynnau a'u diamedrau'n llai na 10 micro metr (Particulates of less than 10 micro metres diameter) |
| **PPM** | Rhannau y Filiwn (Parts Per Million) |
| **PPP** | Cynlluniau, Polisïau a Rhaglenni (Plans, Policies and Programmes) |
| **PPW** | Polisi Cynllunio Cymru (Planning Policy Wales) |
| **PSB** | Bwrdd Gwasanaethau Gyhoeddus (Public Service Board) |
| **RIGS** | Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol (Regionally Important Geodiversity Sites) |
| **ROMP** | Adolygu Hen Ganiatâd Cynllunio Mwynau (Review of Old Mineral Planning Permission) |

| | |
|---|---|
| **RQO** | Amcan Ansawdd Afon (River Quality Objective) |
| **RRAA** | Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) (Race Relations Amendments Act) |
| **RSL** | Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (Registered Social Landlord) |
| **RTPI** | Sefydliad Cynllunio Tref Brenhinol (Royal Town Planning Institute) |
| **RTS** | Datganiad Technegol Rhanbarthol (Regional Technical Statement) |
| **RWP** | Regional Waste Plan (Cynllun Gwastraff Rhanbarthol) |
| **AG (SA)** | Arfarniad o Gynaliadwyedd (Sustainability Appraisal) |
| **SAC** | Ardal Gadwraeth Arbennig (Special Area Conservation) |
| **AAS (SEA)** | Asesiad Amgylcheddol Strategol (Strategic Environmental Assessment) |
| **AAA (SEN)** | Anghenion Addysg Arbennig (Special Educational Needs) |
| **SLA** | Ardal Tirwedd Arbennig (Special Landscape Area) |
| **SME** | Mentrau Bach neu Ganolig (Small or Medium Sized Enterprises) |
| **S02** | Swlffwr Deuocsid |
| **SPA** | Ardal Gwarchodaeth Arbennig (Special Protection Area) |
| **SPZ** | Parth Gwarchodaeth Arbennig (Special Protection Zone) |
| **SSA** | Ardal Chwilio Strategol (Strategic Search Area) |
| **SoDDGA (SSSI)** | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (Site of Special Scientific Interest) |
| **STEAM** | Model Asesu Economi Twristiaeth Scarborough (Scarborough Tourism Economic Assessment Model) |
| **SUDS** | System Ddraenio Drefol Gynaliadwy (Sustainable Urban Drainage System) |
| **TAN** | Nodyn Cyngor Technegol Technical Advise note |
| **TGA** | Ardal Twf Twristiaeth (Tourism Growth Area) |
| **TPO** | Gorchymyn Cadw Coed (Tree Preservation Order) |
| **TWH** | Awr Terra Watt (Terra Watt Hour) |
| **CDU (UDP)** | Cynllun Datblygu Unedol (Unitary Development Plan) |
| **UKCIP** | Rhaglen Effeithiau'r Hinsawdd y Deyrnas Gyfunol (UK Climate Impacts Programme) |
| **UNESCO** | Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig (United Nations Educational, Scientific and Cultural Organisation) |
| **UWA** | Prifysgol Cymru Aberystwyth (University Wales Aberystwyth) |
| **UWL** | Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan (University Wales Lampeter) |
| **LlCC** | Llywodraeth Cynulliad Cymru (Welsh Assembly Government) |

| | |
|---|---|
| **(WAG)** | |
| **W&CA** | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Wildlife and Countryside Act) |
| **WCED** | Comisiwn y Byd ar yr Amgylchedd a Datblygu (World Commission on Environment and Development) |
| **WDA** | Awdurdod Datblygu Cymru (Welsh Development Agency) |
| **WHQS** | Safonau Ansawdd Tai Cymru (Welsh Housing Quality Standards) |
| **WISE** | Sefydliad Amgylchedd Cynaliadwy Cymru (Wales Institute for Sustainable Environment) |
| **WSP** | Cynllun Gofodol Cymru (Wales Spatial Plan) |

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Ailystyried Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion

1.1.1 Cafodd adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Ceredigion ei danio ar 31 Hydref 2016, ar ôl y trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol a dynnodd sylw at feysydd lle roedd angen adolygu'r Cynllun. Mae Adroddiad yr Adolygiad wedi cael ei baratoi sy'n nodi hyd a lled y newidiadau y mae angen eu gwneud i'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a'r drefn ddiwygio i'w dilyn.

1.1.2 Mae'r newidiadau a argymhellwyd wedi cael eu llywio gan gasgliadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol, diweddariadau i'r sylfaen dystiolaeth ac arolygon parhaus, yn ogystal â newidiadau mewn cyd-destun ar gyfer deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol, gan gynnwys goblygiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

**Gofynion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol**

1.1.3 Mae Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ofyniad statudol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol o dan Adran 62(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Mae Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC yn ei gwneud hi'n ofynnol i effeithiau amgylcheddol rhai cynlluniau a rhaglenni gael eu hasesu trwy Asesiad Amgylcheddol Strategol, sy'n cael ei droi'n gyfraith Cymru gan Reoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol yn chwarae rôl bwysig o ran dangos bod y Cynllun Datblygu Lleol yn gadarn trwy sicrhau ei fod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy. Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau sy'n cynnal adolygiad o'u Cynllun Datblygu Lleol i ailystyried Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

1.1.4 Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio datblygu cynaliadwy yng Nghymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel:
"y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant"

Y 5 prif gam wrth gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd y mae'n rhaid eu hintegreiddio wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol yw:

Cam A: Cwmpasu: Gosod y cyd-destun a'r amcanion, sefydlu'r waelodlin a phenderfynu ar gwmpas y gwaith;
Cam B: Arfarnu: Datblygu a mireinio dewisiadau eraill ac asesu eu heffaith;
Cam C: Adrodd: Paratoi Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd;
Cam D: Ymgynghori: Ymgynghori ar ddewis a ffefrir y Cynllun Datblygu a chasgliadau Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd;
Cam E: Monitro: Monitro effeithiau arwyddocaol gweithredu'r Cynllun Datblygu.

1.1.5 Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â Cham A y broses. Mae'r dogfennau cyfarwyddyd canlynol wedi cael eu defnyddio wrth baratoi'r adroddiad hwn:

- Canllaw Ymarferol i Gyfarwyddeb yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (Medi 2005); a
- Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol 2il Argraffiad (Awst 2015).

1.1.6 Mae'r adroddiad hwn yn ailystyried yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol, Adroddiad Cwmpasu, Fersiwn Ymgynghori Ionawr 2008, ac yn rhoi'r wybodaeth gwmpasu ddiweddaraf ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol newydd Ceredigion. Mae tabl 1.1. isod yn crynhoi'r tasgau allweddol sy'n ofynnol a'r dull a fabwysiadwyd, a rhoddir manylion pellach yn Adrannau 2, 3 a 4 isod:

**Tabl 1.1 Paratoi ar gyfer Cyn-adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol – Arfarniad o Gynaliadwyedd Cam A: Gosod y cyd-destun a'r amcanion, sefydlu'r waelodlin a phenderfynu ar gwmpas y gwaith. Tasgau allweddol sy'n ofynnol a'r dull a fabwysiadwyd:**

| | Tasg | Rheswm | Dull |
|---|---|---|---|
| A1. | Nodi unrhyw gynlluniau, rhaglenni ac amcanion diogelu'r amgylchedd perthnasol eraill | Sefydlu sut mae'r cynllun neu'r rhaglen yn cael ei heffeithio gan ffactorau allanol er mwyn cynnig syniadau ar gyfer sut y gellir rhoi sylw i unrhyw gyfyngiadau, a helpu i nodi amcanion yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. | Diweddaru'r cynlluniau, polisïau a rhaglenni a ystyriwyd yn 2008, a phenderfynu sut y dylid cynnwys amcanion/gofynion. |
| A2. | Casglu gwybodaeth sylfaenol | Darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer problemau amgylcheddol, rhagweld effeithiau a monitro i helpu i ddatblygu amcanion yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. | Llunio ac ystyried sylfaen dystiolaeth gyfoes i helpu i nodi problemau amgylcheddol, rhagweld effeithiau a monitro, a chefnogi datblygu amcanion yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. |
| A3. | Nodi problemau amgylcheddol | Helpu i roi ffocws i'r Asesiad Amgylcheddol Strategol a symleiddio'r camau dilynol, gan gynnwys dadansoddiad o'r wybodaeth sylfaenol, gosod amcanion yr Asesiad Amgylcheddol Strategol, rhagweld effeithiau a monitro. | Ystyried gwybodaeth o A1 ac A2 uchod, mewnbwn gan swyddogion ac ymgynghori â Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn adolygu'r materion amgylcheddol a chynaliadwyedd, amcanion arfaethedig a dangosyddion posibl a nodwyd yn adroddiad cwmpasu 2008. |
| A4. | Datblygu amcanion yr Asesiad Amgylcheddol Strategol | Darparu cyfrwng ar gyfer asesu perfformiad amgylcheddol y cynllun neu'r rhaglen a'r | |

| | **Tasg** | **Rheswm** | **Dull** |
|---|---|---|---|
| | | dewisiadau eraill. | |
| A5. | Ymgynghori ar gwmpas yr Asesiad Amgylcheddol Strategol | Sicrhau bod yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn rhoi sylw i effeithiau amgylcheddol arwyddocaol y cynllun neu'r rhaglen. | Yn unol â'r Rheoliadau. |

Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn ystyried ac yn rhoi sylw i gam cyntaf proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Bydd rhaid i'r adroddiad cwmpasu ymdrin ag amrywiaeth o wybodaeth er mwyn dangos cysondeb â'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol. (Cyfarwyddeb 2001/42/EC)

1.1.7 Mae'r gwaith cwmpasu wedi cael ei ystyried o dan themâu allweddol sy'n adlewyrchu'r wybodaeth sylfaenol/tystiolaeth ddiweddaraf. Mae'r pynciau a ddewiswyd i'w cynnwys yn yr Adroddiad Cwmpasu a'u perthynas â'r pynciau a restrir gan Reoliadau Asesu Cynlluniau a Rhaglenni Amgylcheddol (Cymru) 2004 wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol:

**Tabl 1.2 Pynciau yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol Ceredigion**

| | **Pynciau a ystyrir yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol Ceredigion** | **Pynciau a Restrir gan y Rheoliadau** |
|---|---|---|
| 1 | Datblygu Cynaliadwy, Llifogydd a Newid Hinsawdd<br>Yr Arfordir | Ffactorau Hinsawdd |
| 2 | Diogelu'r Amgylchedd | Pridd, Aer a Dŵr |
| 3 | Gwastraff<br>Mwynau<br>Cyfleustodau<br>Ynni | Asedau Materol |
| 4 | Cadwraeth Natur | Bioamrywiaeth, Ffawna a Fflora |
| 5 | Tirwedd<br>Amgylchedd Adeiledig | Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol, gan gynnwys Treftadaeth Bensaernïol ac Archeolegol |
| 6 | Tai<br>Twf yn y Boblogaeth a Thai<br>Addysg<br>Yr Iaith Gymraeg<br>Trafnidiaeth<br>Twristiaeth | Poblogaeth ac Iechyd Dynol |

| | | |
|---|---|---|
| | Hamdden, Adloniant, Iechyd a Llesiant<br>Manwerthu<br>Economi | |
| 7 | Rhoddir sylw i faterion trawsbynciol pwysig o dan bob pwnc unigol | Rhyngberthynas |

1.1.8 Mae'r wybodaeth sylfaenol ar gyfer Ceredigion a gasglwyd o dan gyfres o benawdau i'w gweld yn nhabl 1.2 uchod. Mae casglu gwybodaeth sylfaenol ar gyfer Arfarniad o Gynaliadwyedd yn wynebu amryw o anawsterau:

- Mae'n bosib na fydd data wedi cael ei gasglu ar gyfer maes o ddiddordeb neu efallai na fydd ar gael. Mae'n bosib bod methodoleg a natur y data a gesglir wedi newid ers y cyhoeddiad diwethaf.
- Efallai fod amserlen y data wedi dyddio, neu efallai nad yw amserlenni hanesyddol ar gael er mwyn gwerthuso data a nodi tueddiadau.
- Gallai fod cyfyngiadau daearyddol i'r data a gasglwyd.

## 1.2 Ymgynghori

1.2.1 Yn unol â'r Rheoliadau, dylai adroddiadau amgylcheddol a gynhyrchir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod yn destun i ymgynghoriad 5 wythnos â'r ymgynghoreion amgylcheddol statudol, gan gynnwys CADW, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Yn ogystal cysylltir â'r holl unigolion sydd ar gronfa ddata ein Cynllun Datblygu Lleol i'w hysbysu am yr ymgynghoriad.

## 1.3 Sir Ceredigion

1.3.1 Mae Ceredigion yn sir fawr gyda phoblogaeth a daearyddiaeth wasgaredig (1,900km$^2$), wedi'i ffurfio'n bennaf o dir amaeth, rhostir agored neu goedwigaeth gydag ucheldiroedd i'r dwyrain sy'n ffurfio rhan sylweddol o Fynyddoedd Cambria. Mae ganddi 80km o arfordir. Mae ei chwe phrif dref, sef Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron, ynghyd â threfi ffiniol cyfagos, yn cynnal ardal wledig fawr. Mae Bae Ceredigion, Mynyddoedd Cambria, aberoedd Dyfi a Theifi yn ffurfio amlinellau naturiol ar gyfer ffiniau'r sir.

1.3.2 Poblogaeth Ceredigion yn 2015 oedd 74,600. Gyda'r arwynebedd tir pedwerydd mwyaf o holl awdurdodau lleol Cymru, Ceredigion yw'r ail isaf o ran dwysedd y boblogaeth. Y nodwedd fwyaf amlwg ym mhroffil y boblogaeth yw'r nifer fawr o fyfyrwyr sy'n mynychu prifysgolion Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan, a bydd y rhan fwyaf ohonynt yn gadael ar ddiwedd eu hastudiaethau.

1.3.3 Mae gan Geredigion amgylchedd naturiol a diwylliannol cyfoethog, 12 o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, 1 Ardal Gadwraeth Arbennig bosibl, 101 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a 6 Gwarchodfa Natur Genedlaethol, gan gynnwys dau safle sydd wedi'u dynodi ar lefel ryngwladol i warchod nodweddion bioamrywiaeth pwysig, yn ogystal â thirweddau a threfi a phentrefi unigryw.

1.3.4 Mae'r angen i sicrhau datblygiad cymdeithasol ac economaidd yn y sir ac ar yr un pryd gwarchod ei hasedau naturiol a diwylliannol y sir yn cael ei ysgogi gan y Cynllun Datblygu Lleol presennol a fabwysiadwyd yn 2013. Disgwylir i'r cynllun hwn gael ei ddisodli gan y Cynllun Datblygu Lleol newydd.

## 1.4 Proses y Cynllun Datblygu Lleol

1.4.1 Ceir dau gam yn y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol: Camau Terfynol a Chamau Dangosol. Y camau terfynol yw camau amserlen y Cynllun Datblygu Lleol hyd at y cam adneuo cynllun. Y cam adneuo yw pan fydd y Cynllun wedi cael ei ddrafftio ac yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Mae Camau Dangosol yn digwydd yn y cyfnod ôl-adneuo. Mae'r Cytundeb Cyflenwi, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, yn rhoi disgrifiad manwl o broses y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Cytundeb Cyflenwi i'w weld ar wefan y Cyngor yn www.ceredigion.gov.uk ynghyd â dogfennau perthnasol eraill wrth iddynt gael eu cynhyrchu. Mae amserlen ar gyfer y CDLl wedi'i nodi yn Nhabl 1.3.

**Tabl 1.3 Camau hanfodol yn y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol.**

| Cam yn y broses o baratoi'r Cynllun | | Amserlen Derfynol |
|---|---|---|
| 1 | Cytundeb Cyflenwi wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru (Rheoliad 9) | 21.06.2018 |
| | Cyflwyno | Mehefin 2018 |
| 2 | Cytundeb Cyflenwi wedi'i gytuno gan Lywodraeth Cymru | Mehefin 2018 |
| | [Cyhoeddi] | Mehefin 2018 |
| 3 | Cyfranogiad Cyn-adneuo:<br>Cyfranogiad gyda'r Cyrff Ymgynghori Penodol a Chyffredinol at ddiben llunio strategaethau ac opsiynau (Rheoliad 14) | Mehefin 2018 – Mai 2019 |
| 4 | Galw am safleoedd posibl | Mehefin – Awst |
| 5 | Ymgynghoriad cyhoeddus cyn-adneuo – cyfnod o 6 wythnos o ymgynghori cyhoeddus (Rheoliad 15) | Mehefin – Gorffennaf 2019 |
| 6 | Asesu'r sylwadau a dderbyniwyd a pharatoi dogfennau adneuo | Mehefin 2019 – Ebrill 2020 |
| 7 | Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol a dogfennau cysylltiedig (Rheoliad 17) | Mai – Mehefin 2020 |
| | | **Amserlen Ddangosol** |
| 8 | Asesu'r sylwadau a dderbyniwyd a pharatoi dogfennau i'w cyflwyno | Mehefin – Rhagfyr |

| | | |
|---|---|---|
| | | 2020 |
| 9 | Cyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol i Lywodraeth Cymru (Rheoliad 20) | Rhagfyr 2020 |
| 10 | Archwilio'r Cynllun Datblygu Lleol (Rheoliad 23) | Ionawr – Medi 2021 |
| 11 | Derbyn argymhellion yr Arolygydd (Rheoliad 24) | Hydref 2021 |
| 12 | Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol gan y Cyngor o fewn 8 wythnos o dderbyn argymhellion yr Arolygydd (Rheoliad 25) [Yn disodli'r Cynllun Datblygu Lleol blaenorol yn awtomatig (Rheoliad 2(19)(c))] | Tach – Rhag 2021 |

# 2. Asesiadau Perthnasol

## 2.1 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac asesiadau eraill

2.1.1 Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ofyniad y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC) fel y'i hamlinellwyd gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn penderfynu a oes unrhyw effeithiau arwyddocaol yn codi o'r polisïau arfaethedig ar unrhyw safleoedd Natura 2000 o fewn ardal y Cynllun.

2.1.2 Nid yw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig yn ffurfio rhan o broses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd oherwydd mae'n wahanol yn nhermau gweithdrefn, a chaiff ei gyflwyno mewn dogfen ar wahân. Mae'r amserlen ar gyfer hyn wedi'i nodi yn y Cytundeb Cyflenwi Drafft.

## 2.2 Yr Iaith Gymraeg

2.2.1 Cafodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chafodd gydsyniad brenhinol yn Chwefror 2011, gan roi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Mae statws y Gymraeg yn cael effaith gyfreithiol, sy'n golygu y dylid trin y Gymraeg ar sail gyfartal â'r Saesneg yng Nghymru.

- Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar sefydliadau i gydymffurfio â'r safonau ynghylch darparu eu gwasanaethau trwy'r Gymraeg, gan gynnwys meysydd megis llunio polisïau, gweithgareddau gweithredol y sefydliad a hyrwyddo'r Gymraeg.
- O ran llunio'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig, mae'n ofynnol i lunwyr polisïau ystyried sut mae'r penderfyniad sy'n cael ei wneud yn un sy'n cael effeithiau cadarnhaol neu gynyddol
- Cyfleoedd i bobl eraill ddefnyddio'r Gymraeg neu
- Trin y Gymraeg ar sail gyfartal â'r Saesneg

2.2.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 10 (Rhagfyr 2018) yn datgan: *"mae'r Gymraeg yn rhan o ffabrig cymdeithasol a diwylliannol a bydd ei llesiant i'r*

*dyfodol yn dibynnu ar bob math o ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sail economaidd gadarn i gynnal cymunedau a mannau cynaliadwy sy'n ffynnu. Dylai'r system cynllunio defnydd tir ystyried yr amodau sy'n hanfodol i'r Gymraeg a, thrwy wneud hynny, gyfrannu at ei defnyddio a'r nod llesiant y Gymraeg sy'n Ffynnu."* Un o'r saith nod a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rhaid i Awdurdodau Cynllunio ystyried yr effaith y bydd eu cynlluniau datblygu yn debygol o'i chael ar y defnydd o'r Gymraeg fel rhan o Arfarniad o Gynaliadwyedd. (Paragraff 3.25. 3.26)

## 2.3 Asesu'r Effaith ar Iechyd

2.3.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn tynnu sylw at rôl Asesu'r Effaith ar Iechyd o ran cyfrannu at lunio cynlluniau. Mae Asesu'r Effaith ar Iechyd, fel offeryn, yn dilyn y dulliau gweithio a argymhellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r ffocws hirdymor yn ymgorffori'r syniad o ddatblygu cynaliadwy, tra bo'r ffocws ar ddylanwadu ar ddifrifoldeb effeithiau yn unol â'r amcanion a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (td. 31) a'r nodau llesiant. At hynny, mae Asesu'r Effaith ar Iechyd yn annog amgylchedd cydweithredol, gan felly dilyn y rheoliadau a nodir yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'r Nod Datblygu Cynaliadwy 11.3, sef cynwysoldeb mewn cynllunio aneddiadau (UN, 2015).

2.3.2 Diben yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn y cyd-destun hwn yw llunio barn ar effaith polisïau, cynlluniau a rhaglenni o ran eu heffeithiau posibl ar iechyd y boblogaeth, a dosbarthiad yr effeithiau hynny o fewn poblogaeth. Caiff yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ei gyflwyno fel dogfen ar wahân a'i gwblhau ar wahân i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd.

## 2.4 Asesiadau ychwanegol

2.4.1 Yn unol â'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol – 2il Argraffiad (2015), bydd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, lle y bo'n gymwys, yn cyfeirio at asesiadau eraill lle y gallant fod yn ofynnol yn ychwanegol at yr hyn a gynhwysir o fewn yr Asesiad o Gynaliadwyedd. Bydd y Cynllun Datblygu

Lleol diwygiedig yn destun Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac Asesiad o'r Gymraeg fel y nodir yn TAN 20 Cynllunio a'r Gymraeg (2017).

## 3. A1 – Nodi unrhyw gynlluniau, rhaglenni ac amcanion diogelu'r amgylchedd eraill

3.1.1 Cynhaliwyd adolygiad llawn o'r cynlluniau, polisïau a rhaglenni perthnasol. Diwygiwyd a diweddarwyd Atodiad 1 o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol, Adroddiad Cwmpasu, Fersiwn Ymgynghori (Ionawr 2008) i sicrhau bod y newidiadau a wnaed ers hynny wedi cael eu hystyried yn llawn. Mae'r rhestr ganlynol yn nodi'r holl gynlluniau a rhaglenni a gafodd eu hystyried (fesul pwnc). Cynhaliwyd asesiad i ystyried yn fanwl amcanion neu ofynion y cynlluniau, polisïau a rhaglenni a sut y gallai eu hamcanion a'u gofynion gael eu cynnwys.

| **Ffactorau Hinsawdd** |
|---|
| **Rhyngwladol** |
| 2030 Fframwaith Polisi ar gyfer Hinsawdd ac Ynni – Comisiwn Ewropeaidd, (2014) |
| Strategaeth ar addasu i newid hinsawdd – Comisiwn Ewropeaidd (2013) |
| Datganiad Johannesburg ar Ddatblygu Cynaliadwy (Uwchgynhadledd y Byd 2002) |
| Protocol Kyoto ar Newid Hinsawdd (1997) |
| Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (1994) |
| Ail Raglen Newid Hinsawdd Ewropeaidd yr Undeb Ewropeaidd – ECCP II (2005) |
| **Cenedlaethol** |
| Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU 2017 – Llywodraeth EM, 2017. |
| Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU 2017, Adroddiad Tystiolaeth, Crynodeb i Gymru – Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, 2017. |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016) |

| |
|---|
| Safonau statudol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy. Llywodraeth Cymru 2018 |
| Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2014. |
| Datganiad Polisi: Paratoi ar gyfer Newid Hinsawdd – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2013. |
| Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol – Llywodraeth EM, 2011. |
| Y Strategaeth Twf Glân – Arwain y ffordd at ddyfodol carbon isel 2017, Llywodraeth EM 2017 |
| Y Cynllun Carbon:<br>Sicrhau dyfodol carbon isel – Llywodraeth EM, 2011. |
| Cynllun Cyflawni ar gyfer Ymaddasu: Strategaeth Newid Hinsawdd i Gymru – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011. |
| Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, Llywodraeth EM, 2010. |
| Strategaeth Newid Hinsawdd i Gymru – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010. |
| Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009 – Llywodraeth EM, 2009. |
| Deddf Newid Hinsawdd 2008 – Llywodraeth EM, 2008 |
| Nodyn Cyngor Technegol Un Deg Pedwar (TAN 14): Cynllunio'r Arfordir – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 1998. |
| Nodyn Cyngor Technegol Un Deg Pump (TAN 15): Datblygu a Pherygl o Lifogydd – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004. |
| **Lleol** |
| Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Ceredigion – Cyngor Sir Ceredigion (2014) |
| **Pridd, Aer a Dŵr** |
| **Rhyngwladol** |
| Cyfarwyddeb Asesu Effaith Amgylcheddol 2014/52/EU – Undeb Ewropeaidd, 2014. |
| 7fed Cynllun Gweithredu Amgylcheddol yr UE – Cyngor Ewropeaidd, 2013, a'r Seithfed Rhaglen Gweithredu Amgylcheddol hyd at 2020 'Byw'n well, o fewn |

| |
|---|
| terfynau ein planed' – Comisiwn Ewropeaidd, 2013. |
| Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr UE 2018/851 |
| Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr y CE 2000/60/EC |
| **Cenedlaethol** |
| Gweithredu systemau draenio cynaliadwy ar ddatblygiadau newydd: Ymgynghori – crynodeb o'r ymatebion. Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2018. |
| Bwrw ymlaen â rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy: Ymgynghori – crynodeb o'r ymatebion. Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2018. |
| Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Diwygiad) 2016 – Llywodraeth EM, 2016. |
| Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) – Cyfoeth Naturiol Cymru, 2016. |
| Strategaeth forol rhan tri: Rhaglen o fesurau'r DU – Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), 2015. |
| Asesiad Cymeriad Morwedd Cymru – Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW), 2015. |
| Datganiad Polisi Cyfoeth Naturiol – Llywodraeth Cymru (2017). |
| Strategaeth Dŵr i Gymru – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2015. |
| Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2015. (Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (drafft) 2018 ar y gweill) |
| Strategaeth forol rhan dau: Rhaglenni monitro morol y DU – Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), 2014. |
| Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 2015/2040 – Dŵr Cymru, 2014. (Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Drafft 2018 ar y gweill) |
| Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Môr a Physgodfeydd Cymru – Llywodraeth Cymru, 2013. |
| Strategaeth Forol rhan un: Asesiad cychwynnol a statws amgylcheddol da y DU – Yr Adran Ffermio a Materion Gwledig (Defra), 2012. |
| Prosiect Parth Cadwraeth Morol – Cydbwyllgor Cadwraeth Natur a Natural England, 2011. |
| **Lleol** |

| |
|---|
| Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru 2015-2021 – Cyfoeth Naturiol Cymru, 2015. |
| Cynlluniau Rheoli Ased – Buddsoddiad Dŵr Cymru/Welsh Water, parhau. |
| Strategaeth Archwilio Tir Halogedig (CSC) 2005. |
| Strategaeth Ansawdd Aer (CSC). |
| **Asedau Materol** |
| **Rhyngwladol** |
| Cyfarwyddeb (UE) 2018/844 yn diwygio Cyfarwyddeb Effeithlonrwydd Ynni 2012/27/EU |
| Ynni 2020, Strategaeth ar gyfer ynni cystadleuol, cynaliadwy a diogel – Comisiwn Ewropeaidd, 2010. |
| Cyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy 2009/8/EC – Comisiwn Ewropeaidd, 2009. |
| **Cenedlaethol** |
| Cynllun Gweithredu Cymru ar Ffonau Symudol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2017. |
| Mynediad i Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf: Ymgynghoriad – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2017. |
| Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2017 – Llywodraeth EM, 2017. |
| Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru – Grŵp Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru parhad ac Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff De-orllewin Cymru, 2016. |
| Twf Gwyrdd Cymru: Ynni Lleol – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2016. |
| Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru: Strategaeth ar gyfer y 10 mlynedd nesaf 2016-2026 – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2016. |
| Cyfarwyddyd Ymarfer: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel – Pecyn Cymorth i Gynllunwyr – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2015. |
| Cynllun Gweithredu Effeithlonrwydd Ynni Cenedlaethol a Strategaeth Adnewyddu Adeiladau y DU – Llywodraeth y DU. 2014 |

| |
|---|
| Nodyn Cyngor Technegol Dau Ddeg Un (TAN 21): Gwastraff – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2014. |
| Strategaeth Ddiwydiannol Gwynt ar y Môr: Gweithredu gan fusnesau a'r llywodraeth – Llywodraeth EM, 2013. |
| Rheoliadau Tir Halogedig (Diwygiadau) (Cymru) 2012 – Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2012. |
| Ynni Cymru: Newid i economi carbon isel – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2012 a Chynllun Cyflawni, 2014. |
| Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar gyfer seilwaith ynni – Llywodraeth EM, 2011. |
| Mapio ynni adnewyddadwy y DU Diweddariad 2013 – Llywodraeth EM, 2013. |
| Rhaglen Datblygu Gwledig 2014/2020 – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011. |
| Tuag at Ddim Gwastraff, Dogfen Strategaeth Gwastraff Gyffredinol Cymru Mehefin 2010 ac Adroddiad Cynnydd 2015. |
| Deddf Ynni 2016, Llywodraeth EM, 2016. |
| Trywydd Ynni Adnewyddadwy Cymru, ymgynghoriad ar y ffordd ymlaen i Gymru lanach, wyrddach a llai gwastraffus – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008. |
| Yr Her Ynni: Adroddiad yr Adolygiad Ynni (2006). |
| Rheoliadau Rheoli Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011. |
| Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005. |
| Nodyn Cyngor Technegol Wyth (TAN 8): Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005. |
| Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) 1 – Agregau (2004). |
| Rheoliadau Cynllun Lwfans Tirlenwi (Cymru)<br>2004 |
| Ein Dyfodol Ynni – creu economi carbon isel, DTI Chwefror 2003 |
| Rheoliadau Tirlenwi (Diwygiad) (Cymru a Lloegr)<br>2005 |
| Nodyn Cyngor Technegol Un Deg Naw (TAN 19): Telegyfathrebu – Llywodraeth |

| |
|---|
| Cynulliad Cymru, 2002. |
| Strategaeth Tlodi Tanwydd y DU (2001). |
| **Lleol** |
| Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd a De Cymru – Adolygiad Cyntaf. |
| Strategaeth Rheoli Gwastraff ar gyfer Ceredigion Chwefror 2012 (yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd)<br>Cynllun Rheoli Carbon Cyngor Sir Ceredigion 2012/13-2016/17, Gorffennaf 2013. |
| **Bioamrywiaeth, Ffawna a Fflora** |
| **Rhyngwladol** |
| Strategaeth bioamrywiaeth yr UE hyd at 2020 – Comisiwn Ewropeaidd, 2011. |
| Cyfarwyddeb y Cyngor 2009/147/EC ar gadwraeth adar gwyllt – Comisiwn Ewropeaidd, 2009 (Y Gyfarwyddeb Adar) |
| Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol, Rio de Janeiro 1992. |
| Cyfarwyddeb y CE 1992/43/EEC ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Ffawna a Fflora Gwyllt (Cyfarwyddeb Cynefinoedd). |
| **Cenedlaethol** |
| Adroddiad Cyflwr Natur 2016 – Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB), 2016. |
| Cynllun Adfer Natur Cymru – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2015. |
| Safonau Bioamrywiaeth Prydain: Cod Ymarfer ar gyfer Cynllunio a Datblygu (BS42020: 2013) (BSI, 2013) – Sefydliad Safonau Prydain (BSI), 2013. |
| Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Llywodraeth EM, 2017. |
| Coetiroedd ar gyfer Cymru – Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Coetiroedd a Choed. Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2018 |
| Nodyn Cyngor Technegol Pump: Cadwraeth Natur (TAN 5): Cadwraeth a Chynllunio Natur – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009. |
| Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Diwygiwyd diwethaf 2017. |

| |
|---|
| Safon Coedwigaeth y DU: Ymagwedd y llywodraeth at goedwigaeth gynaliadwy, Pedwerydd Rhifyn (2017) |
| Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (wedi'i diweddaru gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 28 Ionawr 2019) |
| LIFE Natura 2000 Rhaglen i Gymru – Cyfoeth Naturiol Cymru 2013 |
| Nodyn Cyngor Technegol Deg (TAN 10): Gorchmynion Diogelu Coed – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 1997. |
| Deddf Parc Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. |
| Rhestr Coetiroedd Hynafol – Cyfoeth Naturiol Cymru, 2011. |
| **Lleol** |
| Cynllun Rheoli Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion 2008 |
| Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion 2002 |
| **Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol, gan gynnwys Treftadaeth Bensaernïol ac Archeolegol** |
| **Rhyngwladol** |
| Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd, 2000. |
| **Cenedlaethol** |
| Canllawiau Statudol ar Gofnodion Amgylcheddol Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2017. |
| Nodyn Cyngor Technegol Dau Ddeg Pedwar (TAN 24): Yr Amgylchedd Hanesyddol – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2017.<br>Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio, Llywodraeth Cymru, 2016. |
| Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 – Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2016.<br>Gofyniad Datganiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth – Diwygiad i'r rheoliadau, 2017.<br>Rhestr Statudol o Enwau Lleoedd Hanesyddol yng Nghymru, 2017. |
| Henebion Rhestredig a henebion heb fod yn rhestredig ond sy'n bwysig yn genedlaethol – Llywodraeth EM, 2013. |

| |
|---|
| Y Dewis Naturiol: sicrhau gwerth natur – Llywodraeth EM, 2011. |
| Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, 2000. |
| Nodyn Cyngor Technegol Saith (TAN 7): Rheoli Hysbysebion Awyr Agored, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 1996. |
| Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (1990). |
| Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol (1979). |
| Rhaglen LANDMAP – Cyfoeth Naturiol Cymru, parhau. |
| **Lleol** |
| Blaenoriaethau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion, 2017.<br>Cynllun Heddlu a Throseddau Dyfed Powys 2017-2021. |
| **Poblogaeth ac Iechyd Dynol** |
| **Poblogaeth, Twf a Thai** |
| **Rhyngwladol** |
| Tuag at fuddsoddiad cymdeithasol ar gyfer twf a chydlyniant 2014-2020 – Comisiwn Ewropeaidd, 2013. |
| **Cenedlaethol** |
| Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2016. |
| Nodyn Cyngor Technegol Un (TAN 1): Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2015. |
| Deddf Tai (Cymru) 2014 – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2014. |
| Y Strategaeth Dai Genedlaethol – 'Gwella Bywydau a Chymunedau – Cartrefi yng Nghymru', Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010. |
| Nodyn Cyngor Technegol Chwech (TAN 6): Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010. |
| Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (Diwygiad) Rheoliadau 2003, Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 a Deddf Cydraddoldeb 2010. |
| Nodyn Cyngor Technegol Dau (TAN 2): Cynllunio a Thai Fforddiadwy – Llywodraeth |

| |
|---|
| Cynulliad Cymru, 2006. |
| Un Dyfodol: llwybrau gwahanol – Fframwaith Cyffredin y DU ar gyfer Datblygu Cynaliadwy 2004. |
| **Lleol** |
| Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (Diweddariad) – Cyngor Sir Ceredigion, 2006.<br>Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr Ceredigion, 2016<br>Strategaeth Dai Leol Ceredigion: Tai i Bawb 2018-2023. |
| Heneiddio'n Dda yng Ngheredigion 2016-2019 |
| **Addysg** |
| **Cenedlaethol** |
| Addysg yng Nghymru: Ein cenhadaeth genedlaethol, Cynllun Gweithredu 2017-21 |
| Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2016 |
| Iaith fyw: iaith byw. Strategaeth y Gymraeg 2012-2017 Cynllun Gweithredu 2016-2017 |
| Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2015. |
| Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2015. |
| Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2013. |
| Ieithoedd sy'n Cyfrif, Strategaeth Ieithoedd Tramor Modern Cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002). |
| Y Wlad sy'n Dysgu: Dogfen Ymbaratoi, Rhaglen Addysg a Dysgu Gydol Oes Gynhwysfawr hyd at 2009 yng Nghymru, (Awst 2001. |
| Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 |
| **Lleol** |
| Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020 Cyngor Sir Ceredigion, 2016 |
| Cynllun Addysg Sengl Ceredigion 2006 -2008. |

| |
|---|
| Cynllun Strategol Addysg Atodol Ceredigion 2003 -2004. |
| **Yr Iaith Gymraeg** |
| **Cenedlaethol** |
| Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg<br>Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg<br>Cymraeg 2050: Rhaglen waith 2017-21<br>Symud Cymru Ymlaen 2016-21.<br>Strategaeth y Gymraeg 2012-2017 (2012)<br>Iaith fyw: Iaith Byw – Bwrw ymlaen. Datganiad polisi a Chynllun Gweithredu, Llywodraeth Cymru, 2014. |
| Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Y Camau Nesaf – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2016. |
| Nodyn Cyngor Technegol Ugain (TAN 20): Cynllunio a'r Iaith Gymraeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2017. |
| Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011. |
| Deddf yr Iaith Gymraeg, 1993. |
| **Lleol** |
| Strategaeth y Gymraeg Ceredigion 2018-23 (2018) |
| **Trafnidiaeth** |
| **Cenedlaethol** |
| Teithio Llesol (Cymru) 2013 – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2013.<br>Cynllun Gweithredu Teithio Llesol Cymru – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2016. |
| Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru – Llywodraeth Cymru, 2008. |
| Nodyn Cyngor Technegol Un Deg Wyth (TAN 18): Trafnidiaeth – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007. |
| Deddf Trafnidiaeth Cymru 2006. |
| Deddf Rheoli Traffig 2004. |

| |
|---|
| **Lleol** |
| TraCC Cynllun Trafnidiaeth Leol Canolbarth Cymru 2015 – Wedi'i baratoi ar y cyd gan Gyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Gwynedd a Chyngor Sir Powys, 2015. |
| **Twristiaeth** |
| **Cenedlaethol** |
| Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth twristiaeth 2013-2020 – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2013. |
| Strategaeth Twristiaeth Arfordirol Cymru – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008. |
| Nodyn Cyngor Technegol Un Deg Tri (TAN 13): Twristiaeth – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 1997. |
| **Lleol** |
| Cynllun Rheoli Cyrchfan Ceredigion 2013/2020 – Cyngor Sir Ceredigion, 2013. |
| Strategaeth Twristiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru – Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru, 2011. |
| Strategaeth Economi Twristiaeth ac Ymwelwyr i Geredigion 2011/2020 – Cyngor Sir Ceredigion, 2011. |
| **Hamdden, Adloniant, Iechyd a Llesiant** |
| **Rhyngwladol** |
| Adroddiad ar argymhellion y Pwyllgor ar Hawliau Plant – Cenhedloedd Unedig, 2016. |
| Cyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol – Cyfarwyddeb yr UE 2002/49/EC (yn ymwneud ag asesu a rheoli sŵn amgylcheddol) (UE 2002). |
| **Cenedlaethol** |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 – Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017. |
| Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb 2016/2020 – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2016. |

| |
|---|
| Strategaeth Tlodi Plant i Gymru – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2015. |
| Gweithio i gael dyfodol iachach i Gymru. Strategaeth hirdymor 2018-30 |
| Polisi Gwirfoddoli, Cefnogi Cymunedau, Newid Bywydau – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2015. |
| Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2013. |
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) – Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014. |
| Creu Cyfle i Chwarae, Canllawiau Statudol – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2014. |
| Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-2023 – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2013. |
| Newid hinsawdd: yr effaith ar iechyd yn y DU – Public Health England, 2012. |
| Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011. |
| Datblygiad Cynaliadwy: Mynd i'r afael ag angerddoldeb iechyd – y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, 2010. |
| Deddf Cydraddoldeb 2010, Llywodraeth EM, 2010. |
| Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010:2020 – Strategaeth Fwyd i Gymru – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010. |
| Nodyn Cyngor Technegol Un Deg Chwech (TAN 16): Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009. |
| Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 |
| **Lleol** |
| Cynllun Heddlu a Throseddau Dyfed Powys 2017-2021 – Polisi Dyfed-Powys, 2017. |
| Strategaeth Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden Cyngor Sir Ceredigion 2014-2020 – Cyngor Sir Ceredigion, 2014. |
| Cynllun Llesiant Lleol Caredigion 2018-2023 |
| Strategaeth Gymunedol, – Ceredigion 2020<br>Mae hyn yn cynnwys Cynllun Gweithredu Cryno Strategaeth Iechyd, Gofal |

| |
|---|
| Cymdeithasol a Llesiant Ceredigion, 2005 – 2007. |
| **Cyflogaeth a Manwerthu** |
| **Cenedlaethol** |
| Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2013. |
| Cynllun Cyflawni'r Seilwaith Cenedlaethol 2016 i 2021 – Llywodraeth EM, 2016. |
| Nodyn Cyngor Technegol Pedwar (TAN 4): Datblygiad Manwerthu a Masnachol Trefi – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2016. |
| Rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru, Symud Cymru Ymlaen 2,016-2021 – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2016. |
| Twf Gwyrdd Cymru: Ynni Lleol – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2015. |
| Nodyn Cyngor Technegol Dau Ddeg Tri (TAN 23): Datblygu Economaidd – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2014. |
| Cynllun Twf y DU – Llywodraeth EM, 2013. |
| Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru – Diweddariad ar y Llif Prosiectau 2018. Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2018. |
| Twf lleol: gwireddu potensial pob lle – Llywodraeth EM, 2010 |
| Cymru: Economi yn Ffynnu, 2005. Llywodraeth Cymru, 2005. |
| **Lleol** |
| Ardal Twf Lleol Dyffryn Teifi – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2015. |
| Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion, 2018 |
| Strategaeth Gymunedol 2020 Ceredigion, 2004<br>Ceredigion i Bawb: Ein Bywoliaeth, Ein Strategaeth Adfywio Economaidd 2014-2020, 2015. |
| **Rhyngberthynas** |
| **Rhyngwladol** |
| Ar drywydd symud i economi carbon isel cystadleuol yn 2050 – Comisiwn Ewropeaidd, 2011. |

| |
|---|
| Ewrop 2020: Strategaeth ar gyfer twf call, cynaliadwy a chynhwysol – Comisiwn Ewropeaidd, 2010. |
| **Cenedlaethol** |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2016.<br>Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2016).<br>Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol, 2017. |
| Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10 – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2018. |
| Nodyn Cyngor Technegol Un Deg Dau (TAN 12): Dylunio – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2016. |
| Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 – Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015. |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015. |
| Tuag at Ddyfodol Diwastraff: Cymru'n Un: Strategaeth Wastraff Gyffredinol ar gyfer Cymru – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010. |
| Pobl, Lleoedd, Dyfodol – Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008. |
| Pobl, Lleoedd, Dyfodol – Cynllun Gofodol Cymru – 2008 diweddariad Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008. |
| Deddf Cynllunio Gwlad a Thref – Llywodraeth EM, 1990. |
| **Lleol** |
| Ceredigion i Bawb: Ein Bywoliaeth, Ein Strategaeth Adfywio Economaidd 2014-2020 – Cyngor Sir Ceredigion, 2015. |
| Ceredigion i Bawb: Cynllun Integredig Sengl – Cyngor Sir Ceredigion, 2013. |
| Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007/2022- Cyngor Sir Ceredigion, 2013. |
| Tai i Bawb – Strategaeth Tai Lleol 2018-2023, Cyngor Sir Ceredigion. |
| Cynllun Rheoli Traethlin Ceredigion 2 – Cyngor Sir Ceredigion, 2011. |
| Cynllun Integredig Sengl – Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion, 2013. |
| Amcanion llesiant – Cyngor Sir Ceredigion, 2017. |

| |
|---|
| Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2018-2023 – Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, 2018. |

# 4. A2. Casglu gwybodaeth sylfaenol

4.1.1 Mae'r wybodaeth sylfaenol ar gyfer yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cynnwys gwybodaeth feintiol ac ansoddol a data sy'n disgrifio cyflwr cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ardal y Cynllun. Mae'n darparu'r sail ar gyfer rhagweld a monitro effeithiau amgylcheddol ac mae'n helpu i ganfod problemau amgylcheddol a ffyrdd eraill o ddelio â nhw. Mabwysiadwyd ymagwedd ymarferol at gasglu gwybodaeth sylfaenol. Mae'r wybodaeth sylfaenol a gasglwyd wedi cael ei dwyn at ei gilydd i ddarparu sylfaen dystiolaeth gyfoes ar gyfer problemau amgylcheddol, rhagweld effeithiau a monitro er mwyn helpu i ddatblygu Amcanion yr Asesiad Amgylcheddol Statudol. Mae hwn yn broses ailadroddus.

4.1.2 Mae'r wybodaeth sylfaenol allweddol a gasglwyd i'w gweld isod:

4.1.3 **Papurau Pwnc y Cynllun Datblygu Lleol 2011 (Fersiwn Cyflwyno)**
Mae'r papurau pwnc hyn yn ffurfiau'r dystiolaeth ddiweddaraf un sydd ar gael ar gyfer y maes polisi penodol ac maent yn crynhoi'r dogfennau a'r dystiolaeth allweddol a lywiodd CDLl Ceredigion gan gyfeirio at bynciau penodol o dan y penawdau canlynol, ac maent ar gael i'w gweld yn:
https://www.ceredigion.gov.uk/oldicm/index.cfm?articleid=17842

- Datblygu Cynaliadwy, Llifogydd a Newid Hinsawdd
- Gwastraff
- Mwynau
- Yr Amgylchedd Adeiledig
- Diogelu'r Amgylchedd
- Yr Amgylchedd Cyfleustodau
- Yr Arfordir
- Twristiaeth
- Hamdden, Adloniant, Iechyd a Llesiant
- Addysg
- Tirwedd

- Yr Iaith Gymraeg:
- Manwerthu
- Cyflogaeth a'r Economi Gwledig
- Tai
- Ynni
- Trafnidiaeth
- Cadwraeth Natur

4.1.4 **Adroddiad Terfynol yr Arferiad o Gynaliadwyedd Ebrill 2013. Atodiad 7 Gwybodaeth Sylfaenol.**

Roedd y papurau pwnc hyn yn crynhoi'r materion allweddol sy'n ymwneud â phynciau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y pryd o dan y penawdau canlynol ac maent ar gael i'w gweld yn: https://www.ceredigion.gov.uk/oldicm/utilities/action/act_download.cfm?mediaid=47518&langtoken=eng

Mae meysydd pwnc yn cynnwys:

- Newid Hinsawdd a Llifogydd
- Pridd, Aer a Dŵr
- Asedau Materol
- Bioamrywiaeth
- Tirwedd a'r Amgylchedd Hanesyddol
- Poblogaeth a Thai
- Iechyd a Llesiant Dynol
- Hamdden, Adloniant a Thwristiaeth
- Addysg a Sgiliau
- Yr Iaith Gymraeg
- Trafnidiaeth
- Cyflogaeth

4.1.5 **Adroddiadau Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion**

Mae'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor fonitro cyflwr yr amgylchedd trwy fonitro'r amcanion

cynaladwyedd a nodir yn Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae ffurflenni monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ffurfio rhan o Adroddiadau Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol. Mae Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi cael eu cwblhau ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion yn flynyddol yn 2014, 2015, 2016, 2017 a 2018. Nodir nad yw rhai o'r dangosyddion monitro yn cael eu hystyried yn flynyddol a bod angen diweddaru rhai ffynonellau/dangosyddion data yn unol â'r newidiadau a ddigwyddodd ers i'r fframwaith gwreiddiol gael ei fabwysiadu.

4.1.6 **Papurau Diweddaru Pwnc Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (Gweithredol) 2019.**

Mae gwaith wedi dechrau ar gyfres o Bapurau Pwnc i lywio'r Adolygiad o'r cynllun a chaiff y rhain eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r strategaeth a ffefrir. Mae'r Papurau yn cynnwys tabl diweddaru Papurau Pwnc sy'n rhoi crynodeb o'r hyn a ddigwyddodd ers 2011 gan nodi materion sydd wedi cael eu codi mewn perthynas â newidiadau polisi, tystiolaeth/gwybodaeth neu faterion newydd. Mae Papurau Diweddaru Pwnc yn cwmpasu meysydd polisi allweddol o dan y penawdau canlynol:

- Datblygu Cynaliadwy, Newid Hinsawdd a Llifogydd
- Diogelu'r Amgylchedd
- Gwastraff
- Mwynau
- Cyfleustodau
- Ynni
- Cadwraeth Natur
- Tirwedd
- Amgylchedd Adeiledig
- Tai
- Twf yn y Boblogaeth a Thai
- Addysg
- Yr Iaith Gymraeg
- Trafnidiaeth

- Twristiaeth
- Hamdden, Adloniant, Iechyd a Llesiant
- Manwerthu
- Economi

Caiff tablau diweddaru Papurau Pwnc eu cyhoeddi fel papurau cefndir i'r strategaeth a ffefrir.

4.1.7 **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – Cyngor Sir Ceredigion – Gwybodaeth Amgylcheddol ar gyfer Asesiadau Llesiant – Pecyn Tystiolaeth (2016)**

(Cyfoeth Naturiol Cymru)

Mae'r wybodaeth hon yn rhoi'r wybodaeth benodol ddiweddaraf ar gyfer Ceredigion o dan y penawdau canlynol:

- Rheoli ein dyfroedd
- Y perygl o lifogydd
- Amrywiaeth ein tirweddau
- Gwydnwch ecosystemau
- Rheoli ein moroedd a'r arfordir
- Fforestydd, coedwigoedd a choed
- Ein mannau gwyrdd
- Adloniant, mynediad a thwristiaeth
- Priddoedd ac amaethyddiaeth
- Perchnogaeth a rheolaeth tir Cyfoeth Naturiol Cymru

# 5. A3. Nodi Problemau Amgylcheddol a; A4 Datblygu amcanion yr Asesiad Amgylcheddol Strategol

5.1.1 Mae nodi problemau amgylcheddol yn gyfle i ddiffinio ystyriaethau allweddol a gwella amcanion yr Asesiad Amgylcheddol Statudol. Mae nodi problemau amgylcheddol a datblygu Amcanion yr Asesiad Amgylcheddol Statudol wedi cael ei wneud i helpu i roi ffocws yr Asesiad Amgylcheddol Statudol a symleiddio camau dilynol, a darparu dull o asesu perfformiad amgylcheddol y Cynllun neu ddewisiadau eraill.

Mae Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd, Amcanion Arfaethedig a Dangosyddion Posibl wedi deillio o'r canlynol:

- Ystyried Cynlluniau a Rhaglenni Perthnasol a sut y gellid cynnwys eu hamcanion (A1);
- Adolygiad o Wybodaeth Sylfaenol (A2);
- Gwybodaeth a phrofiad swyddogion;
- Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru;
- Cynnal Gweithdai Cynaladwyedd gyda'r holl Swyddogion Polisi Cynllunio, Uwch Ecolegydd y Cyngor a Swyddog Rheoli Datblygu'r Cyngor – Mwynau;
- Atgyfeiriadau mewnol a chyfarfodydd â rhanddeiliaid mewnol perthnasol, gan gynnwys Tai, Trafnidiaeth, Diogelu'r Amgylchedd, Twristiaeth, yr Iaith Gymraeg, Datblygu ac Adfywio Economaidd a Llesiant staff;
- Adolygwyd dangosyddion yn gyntaf hefyd i adlewyrchu Fframwaith Monitro yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Statudol a fabwysiadwyd, fel y manylir yng Nghynllun Datblygu Lleol Ceredigion – Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Terfynol (Ebrill 2013). Yn ail, adolygwyd Fframweithiau Monitro Awdurdodau Lleol eraill a gwaith monitro'r Cyngor ei hun hefyd i nodi dangosyddion defnyddiol a mesuradwy.

- Ymgysylltu'n gynnar â Grŵp Gweithredol Dyfodol Cynaliadwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (6 Tachwedd 2017).

5.1.2 Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r Ystyriaethau yn ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd, amcanion arfaethedig a dangosyddion posibl. Mae unrhyw ryngberthynas rhwng meysydd pwnc yn cael eu hystyried hefyd mewn perthynas â'r pwnc perthnasol fel yr argymhellir gan y canllawiau.

**Tabl 5.1 Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Amcanion Arfaethedig a Dangosyddion Posibl.**

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| **Pwnc 1: Ffactorau Hinsawdd (Datblygu Cynaliadwy, Newid yn yr Hinsawdd a'r Arfordir)** | | |
| • Mae effeithiau sylweddol newid yn yr hinsawdd yng Nghymru yn cynnwys: lefel y môr yn codi, hafau poethach a sychach, gaeafau mwynach a gwlypach, tymheredd eithafol yn digwydd yn amlach, mwy o stormydd a stormydd mwy ffyrnig, erydu'r arfordir, colli cynefinoedd a rhywogaethau, newidiadau posibl i'r dirwedd, prinder dŵr yn yr haf a llai o ddŵr yn yr afonydd yn amlach, tymheredd mewn adeiladau yn llai dioddefol.<br>• Angen addasu i leihau ein heffaith ar yr hinsawdd yn lleol ac yn fyd-eang.<br>• Ceir cyfleoedd ar gyfer rheoli ail-alinio'r arfordir ar aber Dyfi a Theifi.<br>• Ardaloedd o'r parth arfordirol mewn perygl o | 1a) Lleihau'r achosion a rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd (gan gynnwys newid arfordirol).<br><br>1b) Sicrhau mesurau digonol i addasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. | • Allyriadau blynyddol o nwyon tŷ gwydr y fasged (fesul sector)<br>• Ôl troed ecolegol byd-eang Ceredigion.<br>• Maint y datblygiadau masnachol neu berthnasol eraill (unedau a chyfran) o 1,000$m^2$ / 1 hectar neu fwy sy'n cyrraedd safon ardderchog BREEAM (Cyngor Sir Ceredigion/Adroddiad Monitro Blynyddol).<br>• Y capasiti MW gosodedig ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a gymeradwyir (Cyngor Sir Ceredigion/Adroddiad Monitro Blynyddol). |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| newid arfordirol fel y nodir yng Nghynllun Rheoli'r Traethlin 2. | | • Y defnydd o ynni domestig. |
| **Pwnc 1: Ffactorau Hinsawdd (Llifogydd)** | | |
| • Mae 3726 o eiddo mewn ardaloedd rhybudd llifogydd yn y sir.<br>• Mae tri digwyddiad llifogydd mawr wedi effeithio ar y sir yn y blynyddoedd diwethaf – llifogydd Gogledd Ceredigion ym Mehefin 2012, y stormydd llanw yn Ionawr 2014 a llifogydd De Ceredigion yn Hydref 2018.<br>• Mae codi ymwybyddiaeth y gymuned o lifogydd arfordirol ac afonol yn bwysig o ran annog seilwaith a datblygiadau eraill i ffwrdd o ardaloedd lle mae perygl o lifogydd.<br>• Mae'n bosib y bydd angen symud seilwaith, gan gynnwys rhannau o Lwybr Arfordir Ceredigion, mewn ymateb i fwy o berygl o lifogydd.<br>• Mwy o bwysau ar systemau carthffosiaeth a diffyg | 1c) Lleihau perygl llifogydd | • Maint y datblygu a ganiateir mewn ardaloedd gorlifdir C1 a C2 fel y'u diffinnir gan TAN 15 (Cyngor Sir Ceredigion/Adroddiad Monitro Blynyddol).<br>• Maint y datblygu preswyl newydd (unedau) a ganiateir gyda Systemau Draenio Cynaliadwy (Cyngor Sir Ceredigion/Adroddiad Monitro Blynyddol)'<br>• Maint y datblygu masnachol newydd (unedau) 500 $m^2$ a ganiateir gyda Systemau Draenio Cynaliadwy dros (Cyngor Sir Ceredigion/Adroddiad Monitro Blynyddol)' |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| seilwaith draenio mewn rhan ardaloedd. | | |
| **Pwnc 2: Pridd (Diogelu'r Amgylchedd)** | | |
| • Nid oes llawer o dir amaethyddol (Graddfa 1 – 3a) yng Ngheredigion.<br>• Mae gan Geredigion yr ardal fwyaf o fawn yn iseldiroedd Cymru ynghyd ag ardaloedd sylweddol o fawn ucheldir ym Mynyddoedd Cambria.<br>• Rhaid diogelu a chynyddu ein storfeydd carbon. | 2a) Lleihau halogiad a diogelu ansawdd a maint y pridd a'r mawn. | • Maint y datblygu newydd (ha) a ganiateir/gwblheir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen wedi'i fynegi fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir (Cyngor Sir Ceredigion/Adroddiad Monitro Blynyddol);<br>• Dwysedd cyfartalog datblygiadau tai a ganiateir ar safleoedd datblygu a neilltuwyd (Cyngor Sir Ceredigion/Adroddiad Monitro Blynyddol). |
| **Pwnc 2: Aer (Diogelu'r Amgylchedd)** | | |
| • Mae ansawdd yr aer yng Nghymru wedi gwella'n gyffredinol, gyda rheolaethau allyriadau statudol a | 2a) Cynnal a gwella ansawdd yr aer ar draws | • Lefel llygryddion aer allweddol (e.e. NO2, PM10) (StatsCymru). |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| llai o sylfaen ddiwydiannol yn arwain at ostyngiad mewn allyriadau diwydiannol. Fodd bynnag, nid yw'r targedau ansawdd aer yr amgylchedd ar gyfer nitrogen deuocsid, gronynnau, nicel a hydrocarbonau polysyclig aromatig heb eu cyrraedd o hyd yng Nghymru. Er bod diwydiant yn parhau i fod yn ffynhonnell arwyddocaol o lygryddion, mae ffynonellau eraill, sy'n llai neu'n fwy gwasgaredig ar y cyfan ac yn destun i lai neu dim rheoleiddio, wedi dechrau dod yn fwy amlwg.<br>• Mae Ceredigion yn cydymffurfio â'r holl safonau ansawdd aer ac eithrio oson.<br>• Mae oson yn fwy o broblem mewn ardaloedd gwledig yn ystod hafau poeth. | Ceredigion. | |
| **Pwnc 2: Dŵr (Diogelu'r Amgylchedd)** | | |
| • Mae daearyddiaeth Ceredigion wedi'i dominyddu gan ddalgylchoedd yr afon Rheidol, Ystwyth, Aeron, Dyfi a Theifi, ynghyd â nifer o | 2c) Lleihau effeithiau niweidiol defnydd tir ar ansawdd a maint | • Ansawdd dŵr ymdrochi.<br>• Canran y cyrff dŵr wyneb a chyrff dŵr daear sy'n cael statws da neu |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| ddalgylchoedd afon arfordirol llai.<br>• Mae afon Teifi o bwysigrwydd rhyngwladol oherwydd ei bywyd gwyllt ac mae'n bysgodfa eog a sewin bwysig. Mae Aber Dyfi yn bwysig yn rhyngwladol hefyd oherwydd ei bywyd gwyllt.<br>• Yn ucheldiroedd y prif afonydd, mae asideiddio oherwydd dyddodiad atmosfferig yn broblem. Er y tybir ei fod yn lleihau gall yr effeithiau gael eu gwaethygu gan weithgareddau coedwigaeth ac erydu'r pridd.<br>• Mae nifer sylweddol o hen safleoedd mwyngloddio metelau hanesyddol yng Ngogledd Ceredigion sy'n achosi llygredd mewn cyrsiau dŵr ac yn lleihau amrywiaeth yr anifeiliaid di-asgwrn-cefn a phoblogaethau pysgod.<br>• Mae dulliau ffermio mwy dwys, yn enwedig ar gyfer gwartheg godro ac ieir mewn rhai rhannau o'r sir yn golygu bod angen arddel arferion da wrth reoli slyri, dŵr a phriddoedd ffermydd. | adnoddau dŵr mewndirol ac arfordirol. | uchel yn gyffredinol (Cyfoeth Naturiol Cymru). |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| • Yn y rhannau i lawr yr afon, mae pwysau amaethyddol, gan gynnwys effeithiau seilwaith a rheoli tir, yn broblem arbennig ac yn gyffredin.<br>• Gall ansawdd dŵr yn ardaloedd trefol Ceredigion – arfordirol yn aml – ddioddef o ryddhau carthffosiaeth a systemau draenio wedi'u cam-gysylltu. Mae argaeledd dŵr yn gyfyngedig yn nalgylch afon Rheidol.<br>• Mae sicrhau ansawdd dŵr da yn ein galluogi i fwynhau traethau ymdrochi a dŵr yfed diogel (ceir gweithfeydd tynnu dŵr yn Llechryd ac Ystrad Fflur), yn ogystal â gweithgareddau hamdden adloniant ar y dŵr megis gwylio bywyd gwyllt, pysgota, ceufadu a chanŵio (megis canolfan ceufad Llandysul Paddlers) ar yr arfordir ac ar lannau'r afon. | | |
| **Pwnc 3: Asedau Materol (Gwastraff, Mwynau, Cyfleustodau ac Ynni Adnewyddadwy)** | | |
| • Cyfyngiadau ar ddatblygu ffermydd gwynt sy'n | 3a) Gwneud defnydd | • Cyfanswm tunelledd gwastraff trefol a |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| codi oherwydd diffyg cysylltiad â'r Grid Cenedlaethol gydag Ardal Chwilio Strategaeth D.<br>• Ceir cyfleoedd ar gyfer cynlluniau adnewyddu ynni cymunedol.<br>• Angen hwyluso datblygiadau ynni adnewyddadwy er mwyn cefnogi'r symudiad cenedlaethol at fod yn ddi-garbon.<br>• Mae tir wedi'i neilltuo ar gyfer darparu cyfleuster neu gyfleusterau gwastraff rhanbarthol yng Ngheredigion ar hyn o bryd.<br>• Ymhen amser, gall fod angen cael rhagor o dir yng Ngheredigion er mwyn gallu bodloni ei ofynion gwastraff a gofynion 'Tuag at fod yn ddi-wastraff'.<br>• Mae'r gofynion ar gyfer gwaredu/ailgylchu gwastraff wedi'u gosod yn genedlaethol ac ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cyrraedd pob targed ar gyfer tirlenwi ac ailgylchu gwastraff. | cynaliadwy o adnoddau naturiol. | pherfformiad yn ôl: Targedau Ailgylchu Awdurdodau Lleol (LART) h.y. y lefelau gofynnol i'w cyrraedd wrth baratoi ar gyfer ailddefnyddio neu ailgylchu/compostio (neu dreulio anaerobig) mewn perthynas â gwastraff trefol (fel canran). Targed wedi'i osod ar 58% ar hyn o bryd (yn codi i 64% erbyn 2019/20) (StatsCymru, 2018)<br>• Perfformiad yn ôl targedau Lwfansau Tirlenwi h.y. terfynau lwfansau ar gyfer y tunelledd Gwastraff Trefol Pydradwy a anfonir i safleoedd tirlenwi (adroddiad Cynllun Lwfansau Tirlenwi Cymru 2017/2018. CNC, 2018).<br>• Cyfanswm y gwastraff o gartrefi / gwastraff diwydiannol a masnachol a |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| • Darparu ar gyfer cyflenwad digonol o fwynau y mae eu hangen ar gymdeithas nawr ac yn y dyfodol, ynghyd â diogelu a gwella amwynderau (cydweithio â Chyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Penfro ar gyfer tywod a graean ac ystyried y cronfeydd gweithredol sydd â chaniatâd cynllunio eisoes).<br>• Nodi a diogelu'r adnoddau tywod a graean pwysicaf o fewn y sir i'w diogelu rhag sterileiddiad.<br>• Diogelu ardaloedd lle na ddylai echdynnu a chludo mwynau ddigwydd oherwydd<br>o yr effaith debygol sy'n fwy na'r terfynau derbyniol ar iechyd a diogelwch dynol<br>o y terfyn capasiti amgylcheddol [safleoedd sydd â dynodiadau natur/cadwraeth ddaearegol, nodweddion diwylliannol neu hanesyddol, neu sydd â thirweddau hynod sensitif | 3b) Adeiladu a chynnal gwasanaethau a seilwaith amgylcheddol gyfeillgar, cysylltiedig, o ansawdd uchel. | gaiff ei gynhyrchu / ailgylchu / anfon i safleoedd tirlenwi bob blwyddyn (Stats Cymru, 2018)<br>• Nifer y ceisiadau am fastiau a ganiateir ac a gwblheir (Cyngor Sir Ceredigion).<br>• Nifer y Canolfannau Gwasanaethau a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud â seilwaith (trin carthion a'r cyflenwad dŵr) (Adroddiad Blynyddol DCWW.) Cyngor Sir Ceredigion – Adroddiad Monitro Blynyddol).<br>• Cydymffurfio â Datganiad Technegol Rhanbarthol (Datganiad Technegol Rhanbarthol, 2014) |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| • Rhaid darparu ar gyfer adfer safleoedd mwyngloddio i safon uchel gydag ôl-ddefnydd buddiol a chynaliadwy.<br>• Angen ystyried ymhellach capasiti'r seilwaith (yn enwedig trafnidiaeth a charthffosiaeth) i alluogi datblygu safleoedd;<br>• Mae gwasanaeth band eang cyflym iawn a ffonau symudol wedi gwella ond mae rhai pocedi bach yn parhau heb eu cysylltu. | | |
| **Pwnc 4: Bioamrywiaeth, ffawna a fflora (Cadwraeth Natur)** | | |
| • Mae 12 o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sydd o bwysigrwydd rhyngwladol a thua 100 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig dynodedig yn genedlaethol, a 6 Chronfa Natur Genedlaethol.<br>• Mae Safle Cadwraeth Arbennig posibl ar gyfer llamhidyddion ym Mae Ceredigion a Safle Amddiffyn Arbennig posibl ar gyfer y trochydd gyddf-goch ym Mae Ceredigion. | 4a) Gwerthfawrogi, gwarchod a gwella bioamrywiaeth, gan gynnwys cysylltedd a gwydnwch ecolegol a gwireddu potensial gwasanaethau ecosystem. | • Canran y datblygiadau a ganiateir lle tybir y bydd effeithiau hirdymor gweddilliol sylweddol ar gyfer: Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth a chynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth; cysylltedd ecolegol coed, |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| • Mae'r rhostiroedd iachus a gwlyb gyda'u rhywogaethau glaswelltir y waun a brwyn yn gynefinoedd pwysig ar gyfer y glöyn byw prin brith y gors ac yn nodwedd bwysig yng Ngheredigion. Mae argaeledd stoc, yn enwedig gwartheg ar gyfer pori dros yr haf yn yr ardaloedd hyn yn hanfodol ar gyfer eu rheoli.<br>• Mae rheoli'r newid rhwng tablau dŵr uchel ar gyforgorsydd gweithredol a'r tir amaethyddol wedi'i ddraenio o'i amgylch yn her.<br>• Ceir rhwydweithiau helaeth ar gyfer ystod eang o gynefinoedd, gan gynnwys glaswelltir, gwlypdir a choetir, arfordir, ymylon ucheldir a Dyffryn Teifi sy'n darparu coridorau tirwedd pwysig o gysylltedd. Mae mathau eraill o gynefin yn fwy tameidiog.<br>• Nid yw gallu ein cynefinoedd naturiol i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau – bioamrywiaeth, storio carbon, atal llifogydd, mynediad i adloniant | | gwrychoedd a choetiroedd o werth gweledol, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol neu amwynder neu wasanaethau ecosystem a phrosesau naturiol. (Cyngor Sir Ceredigion/Adroddiad Monitro Blynyddol a Chyfoeth Naturiol Cymru)<br>• Canran y ceisiadau lle mae gwelliannau sy'n ymwneud â'r isod: Bioamrywiaeth (gan gynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth a chynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth), Cysylltedd Ecolegol, coed, gwrychoedd a choetiroedd, neu wasanaethau ecosystem a phrosesau naturiol (Cyngor Sir |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| a thwristiaeth yn cael ei wireddu.<br>• Mae adfer, ehangu a gwella cyflwr a chysylltedd yr holl gynefinoedd hyn yn allweddol i gyflawni'r buddion hyn. | | Ceredigion/Adroddiad Monitro Blynyddol).<br>• Colli cynefin â blaenoriaeth (hectarau) oherwydd datblygu newydd (Cyngor Sir Ceredigion/Adroddiad Monitro Blynyddol).<br>• Colli safleoedd (hectarau) sy'n bodloni meini prawf Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth oherwydd datblygu newydd (Cyngor Sir Ceredigion/Adroddiad Monitro Blynyddol).<br>• Cyflawni targedau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth / Camau Gweithredu a Thargedau Cynllun Adfer Natur Ceredigion (Cyngor Sir Ceredigion) |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| **Pwnc 5: Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol, gan gynnwys Treftadaeth Bensaernïol ac Archeolegol (Tirwedd a'r Amgylchedd Adeiledig)** | | |
| • Mae bygythiad pendant i'r dirwedd wledig ac arfordirol o ddatblygiadau yng nghefn gwlad agored, gan gynnwys o flerdwf gwledig, datblygiadau ffermydd gwynt, mastiau, llety twristiaeth, datblygiadau amaethyddol ansensitif a bygythiadau yn y dyfodol o beilonau trydan.<br>• Mae tirweddau mawr o safon uchel sydd heb eu diogelu gan fesurau statudol, a dylai'r rhain gael eu gwerthfawrogi a'u gwarchod er mwyn i genedlaethau'r dyfodol eu mwynhau yn adloniadol.<br>• Mae'r confensiwn tirwedd yn diffinio pwysigrwydd y dirwedd.<br>• Dealltwriaeth gyfyngedig o lonyddwch ein tirweddau a sut y gellid eu gwarchod.<br>• Mae'r morwedd a'r dirwedd arfordirol yn cael eu | 5a) Deall, gwerthfawrogi, gwarchod, gwella a dathlu tirwedd, amgylchedd hanesyddol, amrywiaeth a hynodedd lleol, a threftadaeth hanesyddol a diwylliannol Ceredigion. | • Nifer yr anheddau newydd a ganiateir yng nghefn gwlad agored (gan gynnwys tai fforddiadwy ac anheddau i weithwyr mentrau gwledig). (Cyngor Sir Ceredigion)<br>• Nifer a maint aneddiadau newydd (Cyngor Sir Ceredigion)<br>• Maint y datblygu a ganiateir ac a gwblheir o fewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig (Cyngor Sir Ceredigion/Adroddiad Monitro Blynyddol).<br>• Maint y datblygu a ganiateir ac a gwblheir mewn Ardal Agwedd Weledol a Synhwyraidd LANDMAP sydd ag arfarniad cyffredinol o werth |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| bygwth gan ddatblygiadau twristiaeth e.e. parciau carafannau mawr.<br>• Dylai tirweddau diwylliannol a naturiol gael eu gwerthfawrogi a'u gwarchod trwy'r system gynllunio.<br>• Yn gyffredinol mae henebion rhestredig mewn cyflwr da, fodd bynnag mae nifer fach o henebion yn adfeilio oherwydd diffyg cynnal a chadw ac effeithiau'r tywydd.<br>• Mae nifer o safleoedd hanesyddol o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol a lleol sydd o dan fygythiad e.e. patrymau caeau hynafol.<br>• Mae nifer fawr o anheddau newydd ac aneddiadau i weithwyr mentrau gwledig yn arwain at ddatblygu adeiladau newydd yng nghefn gwlad agored.<br>• Ansensitifrwydd a chyfaddasu adeiladau gwledig sydd wedi'u cynllunio'n wael. | | eithriadol (Cyngor Sir Ceredigion/Adroddiad Monitro Blynyddol).<br>• Nifer yr asedau hanesyddol sydd mewn perygl (Archaeoleg Dyfed, CADW)<br>• Nifer yr ôl-geisiadau sy'n effeithio ar asedau hanesyddol (Archaeoleg Dyfed, CADW)<br>• Nifer yr achosion gorfodi sy'n effeithio ar asedau hanesyddol (Archaeoleg Dyfed, CADW) |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| • Nid yw maint anheddau newydd mewn lleoliadau eraill yn cyd-fynd â chynllun adeiladau lleol ac yn cael effaith negyddol ar y dirwedd.<br>• Mae nifer cynyddol o adeiladau rhestredig wedi'u nodi fel 'adeiladau mewn perygl'.<br>• Nid yw asedau hanesyddol sydd o bwysigrwydd lleol yn cael unrhyw ddiogelwch ac mewn perygl.<br>• Nid oes mesurau diogelu a rheoli priodol mewn ardaloedd cadwraeth gan nad oes arfarniadau a chynlluniau rheoli.<br>• Diffyg gorfodaeth ragweithiol i ddiogelu a gwarchod asedau hanesyddol. | | |
| **Pwnc 6: Poblogaeth ac Iechyd Dynol (Tai, Poblogaeth a Thwf Tai)** | | |
| • Mae angen cynyddu argaeledd tai fforddiadwy, hygyrch a diogel sy'n ateb anghenion trigolion.<br>• Nid oes gan Geredigion stoc tai digon hyblyg i ateb yr anghenion presennol.<br>• Diffyg llety addas i ateb anghenion poblogaeth | 6a) Cynnal hunaniaeth ddiwylliannol benodol a sicrhau bod anghenion y ddemograffeg newidiol | • Nifer y tai fforddiadwy (unedau a chanran) a ganiateir ac a gwblheir yng Ngheredigion (Cyngor Sir Ceredigion / Adroddiad Monitro Blynyddol). |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| sy'n heneiddio, gan gynnwys tai ymddeol, tai gwarchod, a chyfleusterau gofal ychwanegol.<br>• Lleihad ym maint aelwydydd a diffyg llety addas i ateb anghenion aelwydydd llai ac annog symud i gartrefi llai o faint er mwyn rhyddhau llety i deuluoedd.<br>• Ceir sector datblygu tai ar raddfa fach nad yw'n gallu hwyluso datblygu tai ar raddfa fawr.<br>• Hyfywedd datblygu tai cyfyngedig er mwyn sicrhau enillion cynllunio, gan gynnwys seilwaith, mannau agored, tai fforddiadwy a hygyrch.<br>• Mae patrwm presennol o ddatblygiadau dwysedd isel ond gyda maint unedau mawr yn cael effaith ar hyfywedd datblygu.<br>• Diffyg eiddo un neu ddwy ystafell wely mewn rhai ardaloedd, yn enwedig yn y sector tai cymdeithasol.<br>• Galw mawr am lety un ystafell wely a llety preifat | yn cael sylw.<br><br>6b) Galluogi datblygu cymunedau bywiog, diogel, fforddiadwy, hygyrch a chydlynol | • Nifer y 6 chyfleuster allweddol (siop fwyd, swyddfa bost, gorsaf betrol, tafarn, neuadd bentref, ysgol gynradd) mewn Canolfan Gwasanaethau.(Cyngor Sir Ceredigion / Adroddiad Monitro Blynyddol)<br>• Nifer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) yn y 30% mwyaf amddifad.<br>• Troseddau hysbysadwy a gofnodwyd gan yr heddlu yn ôl math.<br>• Nifer a chanran y tai gwag (Cyngor Sir Ceredigion, cofnodion Treth y Cyngor)<br>• Nifer yr eiddo hygyrch a neilltuir o'r gofrestr tai hygyrch (Dangosydd Strategaeth Dai Cyngor Sir |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| a rennir o fewn y sector preifat oherwydd goblygiadau'r ddeddfwriaeth diwygio lles ar gyfer pobl o dan 35 oed.<br>• Mwy o ddigartrefedd a digartrefedd cudd yn dilyn deddfwriaeth diwygio lles.<br>• Problemau o ran ansawdd y stoc tai yn y sector cyhoeddus a phreifat yn cael sylw yn rhannol gan Safon Ansawdd Tai Cymru. Aelwydydd Ceredigion wedi'u tanfeddiannu.<br>• 25% o aelwydydd yn dioddef mewn tlodi tanwydd.<br>• Cymhareb prisiau tai uchel ac incwm yn arwain at ddiffyg tai fforddiadwy.<br>• Bydd mynediad at ddarpariaeth gofal iechyd a newidiadau yn y ddarpariaeth addysg mewn sir wledig gyda phoblogaeth wasgaredig yn creu goblygiadau o ran lleoliad a dosbarthiad tai.<br>• Rhaid monitro anghenion tai teithwyr a sipsiwn a'r boblogaeth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. | | Ceredigion).<br>• Nifer yr eiddo fforddiadwy a neilltuir o'r gofrestr tai fforddiadwy (Dangosydd Strategaeth Dai Cyngor Sir Ceredigion).<br>• Nifer yr aelwydydd sy'n symud i gartrefi llai mewn tai cymdeithasol (Dangosydd Strategaeth Dai Cyngor Sir Ceredigion)<br>• Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr. (Cyngor Sir Ceredigion 2016) |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| • Angen penderfynu cynaliadwyedd cymharol aneddiadau gwledig a threfol a'r posibilrwydd ar gyfer twf yn y farchnad dai er mwyn hyrwyddo gwell cynaliadwyedd a mynediad yn y dyfodol at wasanaethau sydd o dan fygythiad oherwydd dwysedd poblogaeth isel.<br>• Diogelwch cymunedol yn broblem ar gyfer rhai cymunedau.<br>• Ansawdd a dyluniad anghenion tai i gydweddu ag ansawdd yr amgylchedd naturiol ac adeiledig yng Ngheredigion, a helpu i warchod neu wella bioamrywiaeth. | | |
| **Pwnc 7: Poblogaeth ac Iechyd Dynol (Hamdden, Adloniant, Iechyd a Lles)** | | |
| • Mae cyfleoedd ledled y sir i wella mynediad i fannau gwyrdd yn agosach i'r ardaloedd lle mae pobl yn byw ac yn gweithio ar hyd a lled y sir.<br>• Rhaid i ni ymgysylltu â chymunedau ar lefel leol, yn enwedig lle mae problemau cymdeithasol | 7a) Hyrwyddo a darparu cyfleoedd a gwasanaethau i gynnal cymunedau iach. | • Canran yr aelwydydd o fewn pellter cerdded/beicio cytunedig (400m) i wasanaethau iechyd allweddol (Cyngor Sir Ceredigion / Adroddiad Monitro Blynyddol). |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| megis gordewdra plant neu broblemau iechyd meddwl, er mwyn ystyried a oes cyfleoedd i gynyddu hygyrchedd mannau gwyrdd a all gynnig cyfleoedd ar gyfer adloniant, mynediad, mwynhad tawel a gweithgareddau megis garddio neu wirfoddoli ym maes cadwraeth.<br>• Ceir cyfleoedd mewn ardaloedd allweddol, megis Dyffryn Teifi a ledled y sir i wella mynediad ac adloniant. Yn ogystal ag ardaloedd o goedwigoedd a mynyddoedd yn y sir, mae rhwydwaith helaeth o Hawliau Tramwy a llwybrau beicio yng Ngheredigion hefyd. Y materion i'w hystyried yw cynnal a chadw llwybrau troed a llwybrau ceffylau a darparu ar gyfer anghenion defnyddwyr lluosog a'r galw cynyddol am gael mynediad i gefn gwlad.<br>• Mae ardal wledig Ceredigion yn golygu bod mynediad at wasanaethau yn broblem yn gyffredinol, yn enwedig i'r rhai sy'n byw yn | | • Maint y cyfleusterau mannau agored newydd (hectarau) a ddarperir (Cyngor Sir Ceredigion / Adroddiad Monitro Blynyddol).<br>• Canran yr anheddau newydd sydd o fewn 300m i'r man gwyrdd naturiol agosaf. (Cyngor Sir Ceredigion / Adroddiad Monitro Blynyddol). |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| rhannau mwy anghysbell y sir. Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol i'r henoed a'r anabl.<br>• Oherwydd natur wledig Ceredigion, mae'r gost y pen o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd yn llawer uwch nag ar gyfer ardaloedd trefol.<br>• Ceir pocedi o amddifadedd o fewn y sir a salwch cyfyngus hirdymor cyfyngol. Mae gan Geredigion un o'r lefelau cenedlaethol uchaf o ormodedd o farwolaethau yn y gaeaf ar gyfer y grŵp oedran dros 65 oed. Gellir priodoli hyn i amodau tai gwael a thanwydd tlodi. Gall fod angen gwneud gwaith ymchwil pellach i'r effeithiau hyn.<br>• Ceir cyfle ar gyfer cynllunio gofodol i greu amgylcheddau sy'n hyrwyddo ffordd o fyw iach ac actif. Gall hyn gynnwys darparu cyfleusterau megis mannau chwarae, mannau agored, teithiau cerdded dynodedig ac ati.<br>• Mae nifer uchel o ddamweiniau traffig ar y ffordd yn y sir. | | |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| **Pwnc 8: Poblogaeth ac Iechyd Dynol (Twristiaeth)** | | |
| • Mae twristiaeth yn sector pwysig o'r economi.<br>• Mae llety amgen yn fwyfwy poblogaidd.<br>• Mae cyfle i gynyddu nifer yr ymwelwyr sy'n cael gwyliau byr, 'twristiaeth wyrdd' a thwristiaeth trwy'r flwyddyn o fewn y sir.<br>• Mae cyfle i ddatblygu cyfleusterau newydd yn y sir a fyddai o fudd i'r sector twristiaeth (h.y. y rhai sy'n ymweld â'r ardal) a hefyd y sector hamdden ac adloniant (o fudd i'r rhai sy'n byw yn yr ardal yn bennaf).<br>• Ar hyn o bryd mae diffyg cyfleusterau pob tywydd yn y sir. Byddai cyfleusterau pob tywydd ac amserau agor hwy o fudd i dwristiaeth yn ogystal â'r sector hamdden ac adloniant.<br>• Mae llawer o safleoedd carafannau wedi'u lleoli ar hyd yr arfordir a gallant o mewn perygl o erydu arfordirol a pherygl llifogydd. | 8a) Hyrwyddo, datblygu a gwella cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy ac amgylcheddol gyfeillgar, cyfleusterau hamdden a difyrrwch yng Ngheredigion. | • Diwrnodau twristiaeth a nifer y twristiaid yn ôl<br>i. Llety â Gwasanaeth,<br>ii. Llety Heb Wasanaeth,<br>iii. Aros gyda ffrindiau neu berthnasoedd ac<br>iv. Ymwelwyr Dydd |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| • Mae carafannau yn adnodd pwysig o fewn y sir. Fodd bynnag, gyda dyheadau newidiol ymysg twristiaeth, gall fod angen gwasanaethau a chyfleusterau ychwanegol.<br>• Mae safon uchel arfordir a chefn gwlad Ceredigion yn elfennau allweddol wrth farchnata Ceredigion fel cyrchfan twristiaeth.<br>• . | | |
| **Pwnc 9: Poblogaeth ac Iechyd Dynol (Addysg)** | | |
| • Mae rhai ysgolion cynradd wedi cau ac mae dwy ysgol fawr newydd wedi agor yn ne'r sir yn y blynyddoedd diwethaf.<br>• Gall ad drefnu ysgolion ar draws y sir achosi cynnydd yn y defnydd o gludiant cyhoeddus a phreifat.<br>• Gall mwy o ysgolion fod yn ddiangen wrth i nifer y disgyblion barhau i ostwng. Gall fod modd ailddefnyddio rhai adeiladau ysgol gan gynnig | 9a) Cynyddu cyfleoedd i adeiladu sylfaen addysg a sgiliau Ceredigion. | • Nifer a chanran y bobl 16-64 oed sydd â chymwysterau NVQ.<br>• Canran y bobl 16-24 oed sydd o fewn trothwyau amser teithio 30, 60, 90 munud o 'Ddarparwyr Dysgu' rhwng 7am a 9am ar ddydd Mawrth drwy gerdded, trafnidiaeth gyhoeddus a cheir. (Cyngor Sir Ceredigion/Adroddiad Monitro |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| cyfleusterau cymunedol newydd.<br>• Nid yw'r cyfleoedd cyflogaeth i raddedigion sydd wedi astudio yn y sir ac a hoffai aros yma yn cyfateb â'r galw.<br>• Gall fod diffyg hyfforddiant galwedigaethol yn y sir ar gyfer rhai pynciau arbenigol.<br>• Oherwydd y lefel sylfaen weddol isel o ddiwydiant yn y sir, gall y cyfle i gydweithredu â phrifysgolion fod yn llai nag ar gyfer rhai ardaloedd eraill. | | Blynyddol). |
| **Pwnc 10: Poblogaeth ac Iechyd Dynol (Yr Iaith Gymraeg)** | | |
| • Ceredigion yw un o gadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg. Mae cymdogaethau Cymraeg eu hiaith a chymunedau dwyieithog Ceredigion yn sail i'w diwylliant a'i bywyd bob dydd.<br>• Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion wedi gostwng gan 5% rhwng 2001 a 2011. Yn ôl yr arolwg o'r boblogaeth flynyddol, ers 2011, ni fu unrhyw newid mawr yn nifer y siaradwyr Cymraeg | 10a) Diogelu a gwella iaith a diwylliant Cymru | • Nifer a chanran y bobl 3 oed a hŷn sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg yn ôl blwyddyn Cyfrifiad.<br>• Canran y bobl 3 oed a hŷn sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg yn ôl amcangyfrifon yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol.<br>• Nifer a chanran disgyblion Ceredigion |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| yng Ngheredigion. Mae'r dirywiad yn ganlyniad i ddemograffeg newidiol, sef pobl oedran ymddeol yn mewnfudo a phobl ifanc yn allfudo. Roedd nifer y siaradwyr Cymraeg ar gyfer rhai grwpiau oedran wedi cynyddu rhwng y ddau gyfrifiad.<br>• Nododd 47% o'r boblogaeth 3+ oed yng Ngheredigion eu bod yn gallu siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2011), fodd bynnag mae'r arolwg o'r boblogaeth aelwydydd blynyddol yn nodi canran ychydig yn uwch sef 59.1 % (Stats Cymru, 2019)<br>• Ceir cysylltiad cynhenid rhwng darparu tai fforddiadwy i ateb angen lleol a chefnogi cymunedau Cymraeg eu hiaith. Nododd gwaith ymgysylltu Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fod diffyg tai fforddiadwy yn bryder i gymunedau Cymraeg eu hiaith.<br>• Mae'r gofrestr o enwau lleoedd hanesyddol Cymraeg a hyrwyddo trwy bolisi enwi a rhifau strydoedd yn helpu i ddiogelu enwau Cymraeg. | | sy'n siarad Cymraeg gartref (Cyngor Sir Ceredigion / Cyfrifiad Ysgolion)<br>• Nifer a chanran y disgyblion sy'n cael Asesiad Athro drwy gyfrwng y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| • Annog busnesau a sefydliadau preifat i weithredu polisi Cymraeg a chynllunio sut y byddant yn gweithredu'n ddwyieithog, gan gynnwys mesurau megis arwyddion dwyieithog a hyfforddiant staff.<br>• Mae cynrychiolaeth gryf o siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion yn golygu bod yr iaith yn rhan bwysig o'r ffabrig cymdeithasol a'i bod hi'n briodol i'w hystyried.<br>• Mae Deddf Cynllunio (Cymru) yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Gymraeg gael ei hystyried fel rhan o Arfarniad o Gynaliadwyedd pob dogfen sydd â statws cynllun datblygu. Mae hyn yn cryfhau'r cyngor a ddarperir yn y polisi presennol (TAN 20 2013) sy'n annog awdurdodau cynllunio lleol i ystyried materion Cymraeg fel rhan o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd.<br>• Mae Ceredigion yn gadarnle'r Gymraeg ac mae'n berthnasol iawn i deimladau o gynhwysiant a hunaniaeth. | | |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| • Mae addysg cyfrwng Cymraeg i bob plentyn o dan 16 oed wedi cael effaith arwyddocaol ar nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg (neu sydd â dealltwriaeth o'r Gymraeg), gan felly cynnal cymunedau sy'n siarad Cymraeg mewn ardaloedd a fyddai wedi gweld gostyngiad llawer mwy yn y ganran fel arall.<br>• Mae gan Geredigion a Llywodraeth Cymru bolisïau a safonau cryf ar yr iaith Gymraeg sy'n darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn y sector cyhoeddus. | | |
| **Pwnc 11: Poblogaeth ac Iechyd Dynol (Trafnidiaeth)** | | |
| • Mae lefel uchel o ddibyniaeth ar geir oherwydd natur wledig y sir.<br>• Mae'r ddarpariaeth o drafnidiaeth gyhoeddus yn dirywio yn gyffredinol.<br>• Mae angen gwella teithio llesol (h.y. gofynion Deddf Teithio Llesol (Cymru) ac yn benodol | 11a) Lleihau'r angen/effaith i deithio a hyrwyddo defnyddio dulliau mwy cynaliadwy a llesol o deithio. | • Cynyddu hyd Llwybrau beicio yng Ngheredigion / Mesur hawliau tramwy cyhoeddus / Ymestyn y rhwydwaith teithio llesol (metrau) (Cyngor Sir Ceredigion/Teithio Llesol)<br>• Canran yr aelwydydd sydd o fewn |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| mapiau Teithio Integredig ar gyfer Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan). Mae angen lleihau allyriadau $CO_2$ trwy newidiadau i drafnidiaeth megis newid i gerbydau trydan.<br>• Mae angen lleihau effaith teithio ar yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth.<br>• Mae trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig ar gael ar y rheilffordd yn y sir (nid oes unrhyw drafnidiaeth gyhoeddus ar y rheilffordd yn ne'r sir. Bu gwelliannau o ran amlder gwasanaethau ac ymrwymiad i gyflwyno Gorsaf Drenau Bow Street yng ngogledd y sir dros y 3 i 5 mlynedd nesaf).<br>• Mae astudiaeth ddichonoldeb Aberystwyth i Gaerfyrddin wedi dechrau ystyried cyfleoedd i ailgyflwyno'r lein.<br>• Cyfleoedd i gynyddu trafnidiaeth ar y rheilffordd yn ardal Aberystwyth (Gorsaf Drenau Bow Street i'w gwblhau dros y pum mlynedd nesaf). | 11b) Gwella hygyrchedd at wasanaethau i gymunedau, a chysylltedd er budd yr economi. | trothwyau amser teithio 30, 60 a 90 munud o amwynderau, gan gynnwys (i) siop gornel a/neu archfarchnad, (ii) swyddfa bost a (iii) meddyg a/neu ysbyty (Cyngor Sir Ceredigion / Adroddiad Monitro Blynyddol).<br>• Maint y traffig ar y ffyrdd.<br>• Prif ddull o deithio i'r gwaith. |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| • Cymorth i barhau i leihau nifer y damweiniau yn y sir.<br>• Mae diffyg mynediad cyfartal i ddulliau o drafnidiaeth gyhoeddus mewn aneddiadau mwy anghysbell ac ar gyfer sectorau arbennig o'r boblogaeth.<br>• Angen i ganolbwyntio datblygiadau a thwf yn y dyfodol ar hyd y llwybrau/coridorau trafnidiaeth allweddol.<br>• Lleoliad ymylol Ceredigion.<br>• Angen deall yn well a chynllunio ar gyfer y posibilrwydd o fygythiad i'r seilwaith trafnidiaeth o effeithiau newid hinsawdd. | | |
| **Pwnc 12: Poblogaeth ac Iechyd Dynol (Manwerthu a'r Economi)** | | |
| • Ceir cyfran uchel o swyddi yn y sector twristiaeth a lletygarwch, manwerthu, sector cyhoeddus ac iechyd, a nifer gweddol isel o swyddi yn y sector gweithgynhyrchu a gwasanaethau gwerth uchel. | 12a) Hybu economi fywiog ac amrywiol. | • Nifer a chanran y bobl economaidd weithgar mewn cyflogaeth.<br>• Tâl wythnosol gros cymedrig ar gyfer preswylwyr yng Ngheredigion/ Lefelau |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| • Mae diwydiannau a sefydliadau sy'n bod, yn enwedig y prifysgolion a chyrff cenedlaethol eraill, yn un o gryfderau mawr yr ardal.<br>• Mae'r diwydiannau traddodiadol yn dirywio (amaethyddiaeth).<br>• Twf ym mhen uchaf y sectorau cyflogaeth yn QinetiQ ac IGER.<br>• Bu cynnydd yn y sector "ychwanegu gwerth" yn y sir, yn enwedig yn y sector bwyd.<br>• Mae pobl ifanc yn gadael y sir sy'n arwain at boblogaeth sy'n heneiddio. Oherwydd diffyg rhagolygon gwaith, ceir lefelau isel o fewnfudo ar gyfer pobl yn eu 30au. | | cyflogau o'u cymharu â chyflogau cyfartalog y DU.<br>• Nifer y cyflogeion fesul sector economaidd bras.<br>• Maint y datblygu economaidd a ganiateir/a gwblheir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLl (hectarau ac unedau) (Cyngor Sir Ceredigion/Adroddiad Monitro Blynyddol).<br>• Canran yr adeiladau sy'n wag yng nghanol trefi (Cyngor Sir Ceredigion/Adroddiad Monitro Blynyddol).<br>• Cyfradd genedigaethau a marwolaethau busnesau yng Ngheredigion. (StatsCymru)<br>• Nifer y bobl sy'n cymudo i ac o'r awdurdod lleol (Stats Cymru)<br>• Nifer yr ymwelwyr yn Aberystwyth (Cyngor Sir Ceredigion / Adroddiad Monitro |

| Ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Ddynodwyd | Amcanion Arfaethedig | Dangosyddion Posibl (Ffynhonnell) |
|---|---|---|
| | | Blynyddol).<br>• Canran y defnyddiau manwerthu ar brif ffryntiadau manwerthu. (Cyngor Sir Ceredigion / Adroddiad Monitro Blynyddol).<br>• Canran y defnyddiau manwerthu ar ffryntiadau manwerthu eilaidd. (Cyngor Sir Ceredigion / Adroddiad Monitro Blynyddol). |

## 6. Cydweddoldeb Amcanion

6.1.1 Mae amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol a nodwyd yn Nhabl 4.1 uchod wedi cael eu profi ar sail eu cydweddoldeb, gan ddefnyddio dull matrics, sy'n sicrhau bod unrhyw wrthdaro neu densiynau posibl rhwng unrhyw rai o amcanion yr Asesiad o Gynaliadwyedd arfaethedig yn cael eu nodi. Mae canlyniadau'r asesiad cydweddoldeb wedi'u crynhau yn Nhabl 5.1.

6.1.2 Fel y gwelir yn Nhabl 5.1, mae nifer fawr o'r amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol nail ai'n cydweddu â'i gilydd, neu nid oes perthynas o gwbl rhyngddynt. Pan nad oes perthnasedd rhwng yr amcanion mae hynny'n golygu y gellir eu cyflawni ar yr un pryd heb unrhyw wrthdaro.

6.1.3 Mae'n bosibl y bydd angen mireinio rhai amcanion yn y dyfodol, er y dylai unrhyw newid yn yr amcanion hefyd adlewyrchu barn ymgynghoreion statudol ac anstatudol a fynegir trwy'r ymgynghoriad parhaus.

**Tabl 6.1 Asesiad Cydweddoldeb rhwng amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Statudol.**

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1a. Lleihau'r achosion a rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd (gan gynnwys newid arfordirol). | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1b. Sicrhau mesurau digonol i addasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. | C | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1c. Lleihau perygl llifogydd. | C | C | | | | | | | | | | | | | | |
| 2a. Lleihau halogiad a diogelu ansawdd a maint y pridd a'r mawn. | C | C | C | | | | | | | | | | | | | |
| 2b. Cynnal a gwella ansawdd yr aer ar draws Ceredigion. | C | C | - | C | | | | | | | | | | | | |
| 2c. Lleihau effeithiau niweidiol defnydd tir ar ansawdd a maint adnoddau dŵr mewndirol ac arfordirol. | - | - | C | C | C | | | | | | | | | | | |
| 3a. Gwneud defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol. | C | C | - | C | C | C | | | | | | | | | | |
| 3b. Adeiladu a chynnal gwasanaethau a seilwaith amgylcheddol gyfeillgar, cysylltiedig, o ansawdd uchel. | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | | | | | | | | | |
| 4a. Gwerthfawrogi, gwarchod a gwella bioamrywiaeth gan gynnwys cysylltedd a gwydnwch ecolegol. | C | C | C | C | C | C | C | ? | | | | | | | | |
| 5a. Deall, gwerthfawrogi, gwarchod, gwella a dathlu tirwedd, amgylchedd hanesyddol. | - | - | C | C | C | C | C | ? | C | | | | | | | |
| 6a. Cynnal hunaniaeth ddiwylliannol benodol a sicrhau bod anghenion y ddemograffeg newidiol yn cael sylw. | - | - | - | - | - | - | - | - | C | C | | | | | | |
| 6b. Galluogi datblygu cymunedau bywiog, diogel, fforddiadwy, hygyrch a chydlynol. | ? | ? | C | ? | ? | ? | ? | C | ? | - | C | | | | | |
| 7a. Hyrwyddo a darparu cyfleoedd a gwasanaethau i gynnal cymunedau iach. | ? | ? | ? | C | C | C | ? | C | C | ? | ? | C | | | | |
| 8a. Hyrwyddo, datblygu a gwella cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy ac amgylcheddol gyfeillgar. | ? | ? | C | - | C | C | ? | C | C | C | ? | C | C | | | |
| 9a. Cynyddu cyfleoedd i adeiladu sylfaen addysg a sgiliau Ceredigion. | - | - | - | - | - | - | - | C | - | - | ? | C | C | ? | | |
| 10a. Diogelu a gwella iaith a diwylliant Cymru | - | - | - | - | - | - | - | - | - | C | C | C | - | C | C | |

| | |
|---|---|
| C | Mae'r amcanion yn cydweddu |
| ? | Ansicrwydd ynglŷn â chydweddoldeb |
| N | Nid yw'r amcanion yn cydweddu |
| - | Nid oes perthynas rhwng yr amcanion |

| | 1a | 1b | 1c | 2a | 2b | 2c | 3a | 3b | 4a | 5a | 6a | 6b | 7a | 8a | 9a | 10a | 11a | 11b | 12a |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 11a. Lleihau'r angen/effaith i deithio a hyrwyddo defnyddio dulliau mwy cynaliadwy a llesol o deithio. | C | C | C | - | C | - | C | ? | C | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | | | |
| 11b. Gwella hygyrchedd at wasanaethau i gymunedau, a chysylltedd er budd yr economi. | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | C | C | C | C | C | ? | | |
| 12.a. Hybu economi fywiog ac amrywiol | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | C | ? | ? | ? | C | ? | C | C | | | C | |


6.1.4 Mae'r matrics yn rhestru amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol ar hyd yr echelin fertigol ac mae'r rhifau ar hyd yr echelin llorweddol hefyd yn cyfateb i amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol.

6.1.5 Mae pob amcan yn cael ei brofi yn erbyn yr amcanion eraill er mwyn penderfynu a yw cyflawni un amcan ar draul un arall.

6.1.6 Os nad oes perthnasedd rhwng yr amcanion, gellir cyflawni'r amcanion ar yr un pryd heb unrhyw wrthdaro. Fel y gellir ei weld yn y tabl uchod, mae'r mwyafrif o'r amcanion naill ai'n gydnaws neu heb unrhyw gydberthynas, felly gellir eu cyflawni.

## 6.1 Cydweddoldeb â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

6.1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda chymunedau, pobl a gyda'i gilydd, ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldeb iechyd a newid hinsawdd. Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod ni i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn pennu saith nod llesiant:


Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Cymru lewyrchus
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
Cymru gydnerth
Cymru o gymunedau cydlynus
Cymru iachach
Cymru sy'n fwy cyfartal

| Nod | Disgrifiad o'r nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| **Cymru gydnerth** | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| **Cymru iachach** | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

Mae'r tabl canlynol yn ystyried cydweddoldeb amcanion arfaethedig yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol yn erbyn y nodau Llesiant Cenedlaethol.

**Tabl 6.2 Asesiad Cydweddoldeb rhwng Nodau Cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol**

| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 – Nodau** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
